Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD GWENER, 17 GORFFENNAF 2020**

**AT: HOLL AELODAU'R PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU **CYFARFOD RHITHWIR** O'R **PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS** A GYNHELIR AM **10.00 YB, DYDD GWENER, 24AIN GORFFENNAF, 2020** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Martin S. Davies** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224059** |
| **E-bost:** | **MSDavies@sirgar.gov.uk** |

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
# 14 AELOD

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | KEN HOWELL | (Plaid Cymru) |
| 2. | CYNGHORYDD | JOHN PROSSER | (Llafur) |
| 3. | CYNGHORYDD | EMLYN SCHIAVONE | (Plaid Cymru) |

**CYNGOR SIR CEREDIGION - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | LLOYD EDWARDS | (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) |
| 2. | CYNGHORYDD | KEITH EVANS | (Annibynnol) |
| 3. | CYNGHORYDD | ALUN LLOYD JONES | (Plaid Cymru) |

**CYNGOR SIR PENFRO - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | MICHAEL JAMES | (Annibynnol) |
| 2. | CYNGHORYDD | STEPHEN JOSEPH | (Annibynnol heb gysylltiad) |
| 3. | CYNGHORYDD | ROBERT SUMMONS | (Ceidwadwyr) |

**CYNGOR SIR POWYS - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | DAVID O. EVANS | (Annibynnol) |
| 2. | CYNGHORYDD | LES GEORGE | (Plaid Geidwadol Cymru) |
| 3. | CYNGHORYDD | WILLIAM POWELL | (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) |

**AELODAU ANNIBYNNOL CYFETHOLEDIG - 2 AELOD**

1. YR ATHRO IAN ROFFE
2. MRS HELEN MARGARET THOMAS

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PANEL 2020/21.** | 5 - 6 |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL.** | |
| **3.** | **DATGANIADAU O FUDDIANT.** | |
| **4.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21AIN CHWEFROR 2020.** | 7 - 10 |
| **5.** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI).** | |
| **6.** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU.** | 11 - 52 |
| **7.** | **DIWEDDARIAD AR YR YMATEB I'R PANDEMIG COVID-19.** | 53 - 60 |
| **8.** | **PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD.** | 61 - 72 |
| **9.** | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD** | |


NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.


| | | |
|---|---|---|
| **10.** | **COPI DRAFFT O DDATGANIAD CYFRIFON 2019/20 - ADRODDIAD NARATIF.** | 73 - 104 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**24/07/20**

| **PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PANEL** |
|---|
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br>1. **Penodi Cadeirydd y Panel am flwyddyn y Cyngor 2020/2021**<br>2. **Penodi Is-gadeirydd y Panel am flwyddyn y Cyngor 2020/2021** |
| **Y rhesymau:**<br>Mae'r penodiadau hyn yn ofynnol yn unol â rheolau'r Panel |



| | | |
|---|---|---|
| Awdur yr Adroddiad:<br><br>Robert Edgecombe | Swydd:<br><br>Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol | Rhif Ffôn<br><br>01267 224018<br><br>Cyfeiriad e-bost:<br><br>rjedgeco@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# DYFED – POWYS POLICE AND CRIME PANEL
# 24/07/20

| APPOINTMENT OF CHAR AND VICE-CHAIR FOR THE PANEL | |
|---|---|
| Panel rules require the appointment of a Panel Chair and Vice-Chair every year at the Panel's Annual General Meeting | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**

**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Host Authority File | PACP-006 | County Hall Carmarthen |
| | | |
| | | |

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

Dydd Gwener, 21 Chwefror 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lloyd-Jones (Cadeirydd)

**Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin:**
Cynghorwyr K. Howell, J. Prosser ac E. Schiavone;

**Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:**
Cynghorydd K. Evans;

**Aelodau o Gyngor Sir Penfro:**
Cynghorwyr M. James a S. Joseph;

**Aelodau o Gyngor Sir Powys:**
Cynghorwyr D. Evans, L. George a W. Powell;

**Aelodau Annibynnol:**
Yr Athro I. Roffe;
Mrs. Thomas;

**Yn bresennol o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu:**
Mr. D. Llywelyn - Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu;
Mrs. C. Morgans - Pennaeth y Staff;
Ms. B. Peatling - Prif Swyddog Cyllid;

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Legal Services Manager
M.S. Davies, Democratic Services Officer

**Siambr, Neuadd y Sir, Hwlffordd: 10.00 am - 12.25 pm ac 1.00 pm - 1.35 pm.**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Lloyd Edwards (Cyngor Sir Ceredigion) Cynghorydd Rob Summons (Cyngor Sir Penfro).

**2. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

**3. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU'R CYHOEDD I'R COMISIYNYDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cwestiwn â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU'R CYHOEDD I'R COMISIYNYDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cwestiwn â rhybudd wedi'i dderbyn gan y cyhoedd.

**5. YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL**

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dywedodd y Comisiynydd fod yr adroddiad hefyd wedi cael ei drafod gyda chynrychiolwyr yr Heddlu yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Heddlu a'i fod yn ddiolchgar am eu cydweithrediad. Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y cafwyd gostyngiad yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd. Ychwanegodd

fod buddsoddiad pellach mewn Timau Plismona yn y Gymdogaeth yn cael ei ystyried a'r gobaith oedd y byddai buddsoddiad technolegol yn helpu i wella'r broses o adrodd a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

O ran yr argymhellion a gyflwynwyd gan y Farwnes Newlove yn ei hadroddiad diwethaf yn rhinwedd ei rôl fel Comisiynydd Dioddefwyr, nid oedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu o'r farn y byddai angen unrhyw newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn eu datblygu. Atgoffwyd y Panel bod tîm troseddau gwledig penodol bellach ar waith gyda swyddogion yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy fentrau megis addysgu perchnogion cŵn am eu cyfrifoldebau.

Croesawodd yr Aelodau yr arian grant yr oedd y Comisiynydd wedi'i roi i fentrau cymunedol fel Dr Mz a Hafren.

**PENDERFYNWYD**

**5.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;**

**5.2 bod canlyniadau'r arolwg boddhad dioddefwyr ar gyfer dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyflwynwyd yn ddiweddar gan yr heddlu yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Panel.**

**6. TROSEDDAU GWLEDIG A BYWYD GWYLLT**

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar Droseddau Gwledig.

Wrth gyflwyno ei adroddiad, cyfeiriodd y Comisiynydd at y Gynhadledd Troseddau Gwledig a oedd i'w chynnal ar 6 Mawrth 2020 a drefnwyd ganddo. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd cadarnhaol a wnaed gan y Comisiynydd a Heddlu Dyfed-Powys o ran eu hymrwymiad i weithio gyda chymunedau gwledig er mwyn deall eu hanghenion a'u gofynion yn llawn.

Dywedodd y Comisiynydd er nad oedd troseddau bywyd gwyllt yn flaenllaw ar hyn o bryd yng ngwaith y tîm troseddau gwledig oherwydd ei ymrwymiad i fynd i'r afael â throseddau amaethyddol, byddai'n cael sylw mwy manwl maes o law. Ychwanegodd mai'r gobaith oedd y byddai staff newydd sydd â dealltwriaeth o fywyd mewn ardaloedd gwledig ymhlith y rhai fyddai'n cael eu recriwtio i'r Heddlu.

Cytunodd y Comisiynydd i gyfleu i'r Tîm Troseddau Gwledig bwysigrwydd ymgysylltu â chynghorau cymuned.

Cyfeiriwyd at y rôl bwysig y gallai ffermwyr eu hunain chwarae wrth helpu i atal troseddau gwledig megis gosod camerâu diogelwch.

Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu, mewn ymateb i ymholiad, fod modd i'r Heddlu ddefnyddio dronau pan fyddai hynny'n fanteisiol.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

**7. ADOLYGIAD CRAFFU DWYS - DIODDEFWYR YN TYNNU'N ÔL**

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar yr Adolygiad Craffu Dwys o Ddioddefwyr yn Tynnu'n Ôl yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Er ei bod yn amlwg bod dioddefwyr yn flaenoriaeth i'r Prif Gwnstabl ac i Heddlu Dyfed-Powys yn gyffredinol, roedd yr adolygiad yn argymell nifer o feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau i sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei ddarparu i ddioddefwyr ac i sicrhau bod yr Heddlu yn canolbwyntio'n wirioneddol ar y dioddefwr.

Dywedodd y Comisiynydd fod angen mynd i'r afael â dyblygu rhwng adrannau a gwasanaethau o ran pwy oedd yn darparu cymorth ac yn rhoi'r wybodaeth


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

ddiweddaraf i ddioddefwyr. Cytunodd i fynd ar drywydd awgrym a allai fod yn ddefnyddiol sef trefnu seminar ar gyfer meddygon teulu yn ardal yr Heddlu i roi gwybod iddynt am y materion a drafodir yn yr Adolygiad.
Dywedodd y Comisiynydd fod ganddo sicrwydd bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Heddlu i fynd i'r afael â thrais domestig yn diogelu mwy o bobl a rhoddodd ganmoliaeth i'r Prif Gwnstabl am sicrhau bod hon yn flaenoriaeth allweddol.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

[Gohiriwyd y Panel am ginio ar yr adeg hon]

**8. PENDERFYNIADAU'R COMISIYNYDD**

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd rhwng 29 Ionawr 2020 a 14 Chwefror 2020.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

**9. ADBORTH GAN FWRDD ATEBOLRWYDD YR HEDDLU AR 17 CHWEFROR 2020**

Cafodd y Panel adroddiad llafar gan y Cynghorydd Emlyn Schiavone ar gyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ar 17 Chwefror 2020. Dywedodd y Cynghorydd Schiavone fod y materion a drafodwyd wedi cynnwys mynediad at orsafoedd yr heddlu, mwy o swyddogion yr heddlu ar batrôl, mwy o ddefnydd o faniau symudol, materion yn ymwneud â chyllid, ymatebion i alwadau 101 a monitro amser yr heddlu allan o'r Swyddfa.

Diolchodd y Panel i'r Cynghorydd Schiavone am ei adroddiad.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

**10. CYFARFOD GYDA'R DIRPRWY BRIF WEINIDOG**

Cyflwynodd yr Athro Ian Roffe gofnodion y cyfarfod rhwng Jane Hutt AC, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, a Chadeiryddion/Is-gadeiryddion Paneli Heddlu a Throseddu a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 22 Ionawr, 2020. Diben y cyfarfod oedd codi pryderon gyda'r Gweinidog ynghylch y modd yr oedd aelodau'r panel yn cael eu penodi a sut yr ariannir y paneli ac, yn benodol, y ffaith bod statws unigryw paneli Cymru wedi'u gosod dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr. Dywedodd yr Athro Roffe y bu'r cyfarfod yn un cadarnhaol a'i fod, ar gais y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, i gynorthwyo cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i gynhyrchu nodyn byr yn crynhoi'r materion a'r hyn y gellid ei wneud i fynd i'r afael â nhw. Roedd disgwyl datblygiadau pellach.

Diolchodd y Panel i'r Athro Roffe am ei adroddiad.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**24/07/20**

| ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU |
|---|
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:** **Nodi'r adroddiad ac felly gwneud argymhellion i'r Comisiynydd fel y gwêl y Panel yn ddoeth.** |
| **Y rhesymau:** Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi dyletswydd statudol ar y Panel i ystyried adroddiad blynyddol y Comisiynydd a gwneud argymhellion |

| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn |
|---|---|---|
| Robert Edgecombe | Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol | 01267 224018 |
| | | Cyfeiriad e-bost: |
| | | rjedgeco@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# DYFED – POWYS POLICE AND CRIME PANEL
# 24/07/20

| DRAFT ANNUAL REPORT OF THE POLICE AND CRIME COMMISSIONER | |
|---|---|
| Police Reform and Social Responsibility Act 2011 places a statutory duty upon Police and Crime Commissioners to produce an annual report and upon Police and Crime Panels to consider that report and make recommendations to the Commissioner.<br><br>Panel members are therefore requested to consider the attached draft report and make such recommendations regarding it as they consider appropriate. | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **YES** |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**

**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| **Host Authority File** | **PACP-006** | **County Hall, Carmarthen.** |
| | | |
| | | |

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# Adroddiad Blynyddol 2019-2020

## Diogelu ein Cymunedau gyda'n Gilydd

DRAFT








# Cynnwys

Rhagair ........................................................................................ 3

Fy Mlaenoriaethau ........................................................................... 4

Gweithio i Gyflawni fy Mlaenoriaethau ............................................... 5

Blaenoriaeth 1 – Cadw ein Cymunedau'n Ddiogel................................. 5

Blaenoriaeth 2 – Diogelu'r rhai Agored i Niwed...................................... 8

Blaenoriaeth 3 – Amddiffyn ein Cymunedau rhag Bygythiadau Difrifol .... 12

Blaenoriaeth 4 – Cysylltu â Chymunedau ........................................... 15

Fy Swyddfa.................................................................................... 24

Llywodraethu a Chraffu ................................................................... 26

Gweithio Gyda'n Gilydd ................................................................... 31

Gwario Arian yn Ddoeth ................................................................... 34

Ystadau ........................................................................................ 37

Myfyrio ac Edrych Tua'r Dyfodol ........................................................ 37

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# Rhagair

Croeso i fy Adroddiad Blynyddol diweddaraf, sy'n edrych yn ôl ar flwyddyn ariannol 2019/2020 – fy mhedwaredd flwyddyn fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu – ac sy'n rhoi manylion am rai o'r llwyddiannau a'r cynnydd mwyaf arwyddocaol ar gyfer y flwyddyn.

Cyn i mi edrych nôl ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2019/2020, byddwn ar fai pe na bawn i'n sôn yn gyntaf am COVID-19, y pandemig sydd wedi effeithio ar bob un ohonom. Cydymdeimlaf yn ddwys â'r rhai sydd wedi colli anwyliaid o ganlyniad i'r clefyd.

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi bod a rôl bwysig i'w chwarae yn cefnogi Prif Gwnstabliaid o ran helpu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel yn ystod y coronafeirws ac rwyf wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Prif Gwnstabl, gan geisio sicrwydd ganddo – ar eich rhan – am drefniadau'r Heddlu ar gyfer ymdrin â'r pandemig COVID-19. Mae fy rôl i fel Cadeirydd Plismona yng Nghymru wedi golygu fy mod i hefyd wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ledled Cymru, gan arwain trafodaethau pwysig ar sut y mae COVID-19 wedi effeithio ar blismona yng Nghymru. Gallwch ddarllen mwy am y rôl hon ar dudalen 31.

Mae'r Adroddiad hwn yn rhoi manylion i chi am waith a wnaed rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 er mwyn cyflawni fy mlaenoriaethau; dyma fu'r llwyddiannau mwyaf nodedig, yn fy marn i:

- Cwblhau'r Prosiect teledu cylch cyfyng (TCC);
- Ennill y Marc Ansawdd Tryloywder;
- Dod yn Gadeirydd Plismona yng Nghymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol;
- Y cynnydd a wnaed o ran rhoi llais i bobl ifanc drwy fy Fforwm Ymgysylltu Ieuenctid;
- Y buddsoddiadau rwyf wedi'u gwneud mewn gwasanaethau hanfodol a phrosiectau cymunedol;
- Lansio'r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr, a ymddangosodd yng nghyhoeddiad Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC) "PCCs Making a Difference: Alcohol and Drugs in Focus";
- Y gwaith craffu a wnaed gan fy swyddfa o ran meysydd plismona penodol, a'r argymhellion sy'n cael eu rhoi ar waith;
- Cynnal fy Nghynhadledd Gŵyl Dewi flynyddol, gyda'r ffocws eleni ar Blismona mewn Ardaloedd Gwledig.



Yn ddealladwy, mae'r cyfnod digynsail hwn wedi arwain at ohirio'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a oedd i'w cynnal fis Mai 2020. Bydd yr etholiadau nawr yn cael eu cynnal ym mis Mai 2021. Felly, mae fy nghyfnod fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi'i estyn flwyddyn. Er nad yw'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu wedi newid, wrth edrych ymlaen, rhaid i'm prif ffocws ar gyfer 2020/21 fod ar y canlynol:

- sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl ddigon o adnoddau i ymateb i'r argyfwng ac adfer wedi hynny;
- sicrhau, ar ran y cyhoedd, bod yr heddlu'n ymateb mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol, yn ddigonol, yn gymesur ac yn foesegol;
- hwyluso gwaith partner effeithiol ymysg asiantaethau a grwpiau sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol;
- comisiynu gwasanaethau, yn arbennig ar gyfer dioddefwyr trosedd, a rhoi grantiau ar gyfer dibenion plismona a lleihau trosedd; a
- sicrhau bod gan breswylwyr y mae Heddlu Dyfed-Powys yn eu gwasanaethu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn deall sut mae eu gwasanaeth yn perfformio.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Rwy'n gobeithio y byddwch yn teimlo bod fy adroddiad yn llawn gwybodaeth ac y byddwch yn cael boddhad o'i ddarllen. Diolch.

Dafydd Llywelyn

# Fi yw eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu.



## Dyma 12 peth y mae angen i chi wybod am fy rôl. Rwy'n gyfrifol am:

1. Osod y blaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys;
2. Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu;
3. Ymgysylltu â Chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona;
4. Gweithio'n agos â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol;
5. Cefnogi dioddefwyr a dod â phobl o flaen eu gwell;
6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi'r rhai sy'n agored i niwed;
7. Penodi'r Prif Gwnstabl, a'i ddiswyddo os oes angen;
8. Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn erbyn y Prif Gwnstabl;
9. Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif; a
10. Gosod lefel praesept a chyllideb flynyddol yr Heddlu.

---

**Nid wyf yn gyfrifol am:**

1. Drefnu a chyflwyno gwasanaethau heddlu o ddydd i ddydd, sef "plismona gweithredol'; nac
2. Ymchwilio i gwynion yn erbyn swyddogion heddlu islaw gradd y Prif Gwnstabl.

# Fy Mlaenoriaethau

Nodwyd fy mlaenoriaethau, a'r egwyddorion sy'n eu tanategu, yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu; a gyhoeddwyd yn 2017. Maent yn hollbwysig ar gyfer cyflwyno gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'r cyhoedd, ac maen nhw dal mor berthnasol i blismona ardal Dyfed-Powys ag yr oeddent dair blynedd yn ôl.

**Fy mlaenoriaethau yw:**

1. Cadw ein cymunedau'n ddiogel;
2. Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed;
3. Amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol; a
4. Chysylltu â chymunedau.

**Yr egwyddorion sy'n eu tanategu yw:**

1. Cefnogi dioddefwyr;
2. Ymgysylltu â'r cyhoedd;
3. Cydweithio;
4. Darparu arweinyddiaeth gref; a
5. Chyflwyno gwerth am arian.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi sylw i gynnydd yn ystod 2019/2020 tuag at gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# Gweithio i Gyflawni fy Mlaenoriaethau

## Blaenoriaeth 1 Cadw Ein Cymunedau'n Ddiogel







### Teledu Cylch Cyfyng (TCC)

Cychwynnodd y gwaith o osod camerâu ym mis Gorffennaf 2018, ac roedd systemau TCC yn weithredol mewn 15 tref erbyn diwedd Mawrth 2019. Parhaodd y gwaith hwn i mewn i 2019/2020, ac erbyn 31 Mawrth 2020, roedd dros 145 camera wedi'u gosod mewn 22 tref yn yr ardal Heddlu. Bydd y rhaglen osod yn dod i ben erbyn diwedd 2020, ac rwy'n falch iawn o'r cyflawniad hwn: Diolch i bawb a fu'n gysylltiedig â'r gwaith.

Yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod ein cymunedau mor saff a diogel â phosibl ac mae'n galonogol iawn gweld effaith gadarnhaol yr isadeiledd TCC, yr ystafell fonitro ganolog yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu a'n tîm o weithredwyr TCC ar blismona. Mae arweinwyr y gymuned sydd wedi cael cyfle i ymweld â'r pencadlys a gweld y system wedi cydnabod gwerth y buddsoddiad. CCTV Monitoring Suite photo.

Yn ogystal â helpu i atal a datrys troseddau, mae TCC yn helpu i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed yn ardal yr heddlu. Mae gweithredwyr yn cynorthwyo gyda chwilio am bobl sydd ar goll a phobl sydd mewn gwewyr meddwl.

**Mae darnau ffilm TCC a gymerwyd o'r camerâu newydd wedi bod yn dystiolaeth hollbwysig mewn ymchwiliadau heddlu:**

Mae ansawdd y darnau ffilm wedi bod mor rymus, nes bod rhai o'r rhai a oedd dan amheuaeth wedi pledio'n euog i'r troseddau yr oeddent wedi'u cyhuddo o'u cyflawni.

Un enghraifft oedd achos o niwed corfforol difrifol lle y cafodd dyn ei daro'n anymwybodol ag un ergyd i'r pen tu allan i far y Metropolitan yn Llanelli fis Tachwedd 2018.

Cipiwyd y digwyddiad yn glir ar gamera TCC Heddlu Dyfed-Powys, ac ar ôl i'r un a oedd dan amheuaeth wylio'r ffilm, plediodd yn euog. Fe'i dedfrydwyd i 20 mis o garchar.



**Dywedodd y Prif Gwnstabl Mark Collins:**

*"Rydym yn ymdrin â nifer cynyddol o bobl fregus â phroblemau personol neu iechyd meddwl sydd wedi achosi iddynt fynd ar goll neu brofi gwewyr meddwl. Mae'r heddlu'n derbyn galwadau o'r natur hwn ac mae'n rhaid iddynt ymateb yn gyflym er mwyn bodloni'n dyletswydd gofal.*

*Mae TCC yn cael effaith sylweddol yn yr ardal hon drwy ddod o hyd i bobl sydd ar goll, canfod pobl sy'n bygwth niweidio eu hunain a sicrhau canlyniad cadarnhaol. Mae'r isadeiledd newydd a'r tîm monitro'n arf amhrisiadwy yr ydym eisoes yn gwneud defnydd da ohono o fewn yr heddlu."*

## Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

Yn ystod 2019/2020, mae fy ffocws ar gefnogi'r agenda atal wedi parhau. Ym mis Rhagfyr 2019, cadeiriais Uwchgynhadledd Atal Trawsbartneriaeth ar y cyd â Ros Jervis, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a Chadeirydd Bwrdd Cynllunio Ardal Hywel Dda. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar sut y gallai asiantaethau gydweithio'n well er mwyn gwella'r gwaith o gyflenwi'r gwasanaethau a hybu ymagwedd fwy ataliol tuag at leihau niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

Clywodd y grŵp am effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a sut y mae'r profiadau hyn yn effeithio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Profiadau ingol yw'r rhain sy'n niweidio'r plentyn yn uniongyrchol neu'n effeithio ar yr amgylchedd y mae'n byw ynddo. Mae tystiolaeth yn dangos bod profiadau megis trais domestig, cyffuriau ac alcohol, neu rieni sydd yn y carchar yn gwneud plant yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiadau sy'n niweidio eu hiechyd, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, trais neu feichiogrwydd anfwriadol yn eu harddegau.

Ar adeg ein huwchgynhadledd ym mis Rhagyr 2019, roedd 24 marwolaeth cysylltiedig â chyffuriau wedi digwydd yn ardal Dyfed-Powys; gyda 22 marwolaeth yn 2017 a 20 yn 2018. Mae'r niferoedd hynny'n rhy uchel o lawer, a dyna pam yr oedd hi'n hollbwysig i mi gyd-gadeirio'r Uwchgynhadledd Atal Trawsbartneriaeth. Rwy'n frwd dros hybu ymagwedd fwy ataliol tuag at fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

Roedd y casgliadau allweddol o'r Uwchgynhadledd yn cynnwys yr angen i leihau'r rhwystrau sy'n bodoli drwy rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, pwysigrwydd gwaith partneriaeth, a'r awydd i archwilio i ymagweddau newydd tuag at leihau niwed.

Mae fy Swyddfa wedi gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Cynllunio Ardal i adolygu'r fanyleb ar gyfer y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gomisiynir ar y cyd. Bydd gwasanaethau Hywel Dda a Phowys, gyda Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS) a Kaleidoscope yn y drefn honno, yn cael eu hailgomisiynu yn y ddwy flynedd nesaf. Bydd y gwasanaethau newydd yn cynnwys ffocws mwy dwys ar genedlaethau'r dyfodol a sicrhau llesiant cymunedau. Disgwylir i ddarparwyr weithio'n rhagweithiol gydag asiantaethau eraill er mwyn targedu'r rhai sy'n adnabyddus am aflonyddu ar gymunedau lleol ond sydd ddim yn ymwneud â gwasanaethau'n weithredol.

Derbyniodd y gwasanaethau hyn ychydig dan 3,000 o gyfeiriadau llynedd a chafwyd canlyniad cadarnhaol ar gyfer 68% o gleientiaid y gwasanaeth.

## Cronfa Gymunedol y Comisiynydd

Mae'n bwysig i mi fy mod i'n grymuso unigolion a grwpiau o fewn ein cymunedau lleol i gael effaith gadarnhaol ar eu hardal leol; er mwyn helpu i'w gwneud yn lle diogel i fyw.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn 2019, rhedais fy rhaglen 'Ariannu Cymunedol y Comisiynydd', sy'n rhoi cyfle i grwpiau cymunedol wneud cais am arian ar gyfer prosiectau cymunedol sy'n gwneud gwahaniaeth o fewn eu cymunedau, yn unol â'm blaenoriaethau o fewn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu.

Yn 2019/2020, rhoddais £127,554.00 i 18 prosiect cymunedol gwahanol ar draws ardal Dyfed-Powys.

Roedd y cynigion llwyddiannus yn cynnwys: Dyfodol Powys Futures sy'n helpu i adeiladu dyfodol cadarnhaol gyda dynion ifanc agored i niwed lle mae ffynonellau cymorth eraill wedi methu; 'Stop it now!' Cymru, sy'n cefnogi teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan ymddygiad rhywiol niweidiol ar-lein, gan leihau'r perygl o ymddygiad troseddol yn y dyfodol a chadw plant yn ddiogel; Prosiect Cymorth Goroeswyr i Ferched, sef grŵp cymorth cymheiriaid ar gyfer merched sydd wedi goroesi cam-drin domestig; a Phrosiect Ieuenctid Aberteifi – Ardal 43, sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc yr ardal gael eu clywed, a'u galluogi i gefnogi eu cymheiriaid i wneud yr un peth drwy gynhyrchu cerddoriaeth a'r cyfryngau.

Gallwch ddysgu mwy am y cynigion llwyddiannus ar fy ngwefan.

**Ar ôl derbyn grant o £10,000, dywedodd Claire Short, Rheolwr Cenedlaethol 'Stop it Now!' Cymru:**

*"Mae Stop It Now! Cymru yn falch iawn o dderbyn arian drwy Gronfa Gymunedol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Bydd ein prosiect yn ein galluogi i gyflwyno cyfres o ymyriadau sydd wedi'u llunio er mwyn mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein."*

Bydd y sefydliad yn cyflwyno'u gwasanaethau ledled ardal Dyfed-Powys.

Kaleidoscope CAIS

DDAS DYFED DRUG AND ALCOHOL SERVICE

# Buddsoddi Cymunedol

Yn ystod 2019/2020, buddsoddais mewn cymunedau penodol hefyd. Ystyrir bod wardiau Glan-y-môr a Thyisha yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin ymhlith y wardiau mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac mae llawer o waith yn digwydd er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau a brofir yn y cymunedau hyn. Fel rhan o hyn, ymrwymais i fuddsoddi £50,000 mewn amryw o brosiectau a gyflwynwyd gan y cymunedau eu hunain.

Mae'r prosiectau wedi rhoi cefnogaeth a nifer o gyfleoedd i bobl ifanc a'r gymuned ehangach.

## Swyddogion Cymorth Cyffuriau Allgymorth £17,500

Caniataodd y prosiect hwn i mi recriwtio dau swyddog cymorth cyffuriau allgymorth ar sail sesiynol. Mae ofn yn un o sawl rhwystr a wynebir gan unigolion yn yr ardal. Nodwyd y problemau canlynol; pobl ifanc ac oedolion yn yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus, gwerthu a chymryd cyffuriau (gan gynnwys nodwyddau a chwistrelli'n cael eu canfod), ymddygiad stwrllyd a sŵn gyda'r nos, lladradau a phobl ifanc yn loetran / ymgasglu. Roedd y materion hyn yn cael effaith negyddol ar fywydau llawer, gan effeithio ar iechyd a llesiant. Â Llinellau Cyffuriau'n amlwg yn yr ardal, mae mwy o gyffuriau'n cael eu rhannu yn yr ardal, gan arwain at berygl mawr i fywydau unigolion sy'n agored i niwed.

## Ymddiriedolaeth Gymunedol Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe - Seaside Kicks £5,001



Fel un o brif raglenni cymunedol yr Uwch Gynghrair, gweithiodd y prosiect hwn gyda'r Rhaglen Uwch Gynghrair Genedlaethol; Kicks. Cynhaliwyd gweithgareddau ar draws Glan-y-môr a Thyisha drwy Seaside Kicks, gyda phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol, gan gynnwys amrywiaeth eang o sesiynau addysgol a datblygiad personol, chwaraeon a hyfforddi. Mae'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol amrywiol yn ogystal â sesiynau anffurfiol sy'n mynd i'r afael â materion trosedd. Yn gynharach eleni, cefais weld dylanwad cadarnhaol y fenter ar y bobl ifanc a'r gymuned ehangach â'm llygaid fy hun. Fel rhywun sy'n frwdfrydig dros chwaraeon, ac ar ôl chwarae pêl droed ar sawl lefel yn ystod fy ieuenctid, rwy'n llwyr ymwybodol o ddylanwad chwaraeon ac ymarfer corff ar iechyd a llesiant unigolion yn gyffredinol.




## Prosiect 'Be Fearless' Crimestoppers Llanelli £13,150

Elusen yw Crimestoppers sy'n cefnogi pobl sy'n dymuno rhoi gwybod am drosedd yn ddienw, a Fearless yw ei gwasanaeth ieuenctid. Wedi'i anelu at bobl 11-16 oed, ceisiodd ei phrosiect 'Be Fearless' yn Llanelli helpu i adeiladu ar brosiect Cymru, yn ogystal â'i roi ar waith yn fwy lleol. Nod y prosiect oedd atal a lleihau troseddau ieuenctid yn Llanelli, a galluogi pobl ifanc i deimlo'n hyderus ac yn wydn os oeddent yn dod ar draws achosion o droseddu.

Gan fy mod yn gysylltiedig â'r gwaith hwn, braint oedd cael siarad mewn digwyddiad i lansio fideo prosiect Fearless Crimestoppers yn Llanelli yn ystod 'Wythnos Gwaith Ieuenctid' 2019, ynghyd â chynrychiolwyr o Fearless, y maes plismona ac aelodau o'm Panel Ieuenctid. Mae ei fideo newydd, 'Running The Lines', yn codi ymwybyddiaeth o sut mae gangiau cyffuriau yn cam-fanteisio ar bobl ifanc i werthu cyffuriau. Pwysleisiais mor bwysig yw cydweithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag y math hwn o drosedd.

Roedd y dangosiadau cymunedol o 'Running the Lines', ynghyd â'r sesiynau trafod, fel canolbwynt er mwyn i'r holl asiantaethau partner oedd yn bresennol allu rhoi cyfleoedd ychwanegol i drigolion Glan-y-môr i ofyn unrhyw gwestiynau neu godi unrhyw bryderon oedd ganddynt.

## Prosiect Garddio Cyngor Sir Gaerfyrddin £4,000

Creodd y prosiect gyfleoedd i bobl ifanc wella eu sgiliau garddio a thirlunio mewn amgylchedd anffurfiol, gan ddileu rhwystrau o ran costau, gofal plant a thrafnidiaeth. Nodwyd fod yr unigolion sydd wedi gweithio gyda'r gwasanaeth ieuenctid ar y prosiect hwn mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, neu'n gweithio gyda'r tîm cyfiawnder ieuenctid. Ar ôl cwblhau'r prosiect, cawsant gymhwyster: Lefel 1 uned Garddio Cymunedol Agored.

# Blaenoriaeth 2 Diogelu'r Rhai Agored i Niwed

## Diogelu Plant

Mae dros 50% o'r holl bobl sy'n mynd ar goll yn y DU bob blwyddyn o dan 18 oed. Yn ôl yr Adran Addysg, mae tua 25% o blant sy'n mynd ar goll mewn perygl o gael eu niweidio'n ddifrifol. Mae Llamau'n wasanaeth a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau ôl-drafod, cymorth a chyfryngu ar gyfer pobl ifanc yr adroddwyd eu bod 'ar goll' ac mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol neu ddioddef troseddau, a'u teuluoedd.

Mewn gwaith a wnaed i arfarnu darpariaeth gwasanaethau, canfuwyd bod 25% o'r holl atgyfeiriadau ar gyfer ôl-drafod gyda Llamau yn 2019/2020 yn dangos arwyddion o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Nodwyd achosion hefyd yn ystod yr ôl-drafodaethau lle'r oedd pobl ifanc yn wynebu risg sylweddol fel dioddefwyr a chyflawnwyr troseddau. Roedd Llamau yn gallu darparu'r gefnogaeth angenrheidiol a chyfryngu yn yr achosion hyn er mwyn ceisio torri'r cylch hwn.

Mae effaith y gwasanaeth hefyd i'w gweld yn y gostyngiad yn nifer yr achosion o bobl ifanc y rhoddir gwybod eu bod ar goll. Lleihaodd nifer y digwyddiadau lle hysbyswyd bod pobl ifanc dan 18 oed ar goll yn ardal Dyfed Powys tua 35% rhwng 2015/16 a 2019/2020, sy'n cyfateb i ostyngiad o dros 650 o achosion unigol o bobl ar goll. Yn ystod 2019/2020, bodlonodd 371 o blant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod ar goll y meini prawf ar gyfer eu cyfeirio at Llamau ar gyfer y gwasanaeth ôl-drafod.

Canfu astudiaeth gan Brifysgol Swydd Bedford (Rowe, 2016) mai dim ond cymorth cyfyngedig yr oedd yr heddlu'n gallu ei ddarparu mewn achosion o unigolion yn mynd ar goll. Roedd dros hanner y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth o'r farn mai'r cam gweithredu gorau oedd i'r heddlu eu rhoi mewn cysylltiad ag asiantaethau arbenigol, megis Llamau. O gofio bod gwasanaeth Llamau yn costio uchafswm o £250 fesul ôl-drafodaeth, o gymharu â'r gost amcangyfrifedig ar gyfer ymchwiliad risg ganolig i unigolyn ar goll, sef rhwng £1,300 a £2,400, mae'n fuddsoddiad gwerthfawr sy'n gwneud gwahaniaeth

**Enghreifftiau sy'n dangos llwyddiant ymyriadau Llamau:**

- Rhoddwyd gwybod i Heddlu Dyfed-Powys 10 gwaith dros gyfnod o 8 mis bod merch 14 oed a oedd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol ar goll. Cynhaliodd Llamau 2 ôl-drafodaeth gyda hi, ac yn dilyn hynny ni chafwyd unrhyw achosion o adrodd ei bod ar goll;
- Rhoddwyd gwybod i Heddlu Dyfed-Powys 14 gwaith dros gyfnod o 6 mis bod merch 17 oed a oedd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol ac a oedd o dan ofal maeth, ar goll. Cynhaliodd Llamau 3 ôl-drafodaeth gyda hi, a dim ond 1 achos o adrodd ei bod ar goll a gofnodwyd ar ôl yr ôl-drafodaeth ddiwethaf; a
- Rhoddwyd gwybod i Heddlu Dyfed-Powys 9 gwaith dros gyfnod o 8 mis bod merch 17 oed a oedd yng ngofal yr Awdurdod Lleol fel mesur diogelu, y nodwyd ei bod mewn perygl o gamfanteisio rhywiol, ar goll. Cynhaliodd Llamau ôl-drafodaeth gyda hi a dim ond 1 achos o adrodd ei bod ar goll a gofnodwyd ers hynny.

gwirioneddol i bobl ifanc sy'n agored i niwed.

Roedd y contract gwreiddiol i fod i ddod i ben ar 31 Mawrth 2020 ac yn ddiweddar rwyf wedi cynnal ymarfer cystadleuol er mwyn dyfarnu contract am gyfnod pellach. Llwyddodd Llamau i sicrhau'r contract ac felly byddant yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn tan 2022, gyda'r potensial i ymestyn hyd at 2025.

## Timau Troseddwyr Ifanc

Fe wnes i barhau i ariannu gwaith Timau Troseddwyr Ifanc yn ystod 2019/2020, gan ddarparu £180,000 o fuddsoddiad dros y pedair ardal awdurdod lleol a wasanaethir gan Heddlu Dyfed–Powys. Mae'r Timau Troseddwyr Ifanc yn darparu dull amlasiantaethol o weithio gyda phobl ifanc 8-17 oed sydd mewn perygl o droseddu, gyda'r nod o wella'u diogelwch a'u llesiant. Cyflawnir hyn drwy ymyriadau a gweithgareddau sy'n cael eu hailadrodd ar draws y pedwar Tîm Troseddwyr Ifanc, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u cynllunio'n unigol ar sail anghenion lleol pob cymuned.

Dros y tair blynedd diwethaf, bu dros 900 o atgyfeiriadau i'r Timau Troseddwyr Ifanc. Yn 2019/2020, roedd 369 o atgyfeiriadau unigol; roedd 65% yn wrywod ac 82% dan 16 oed.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r pedair ardal wedi gweithio'n galed i wella prosesau a gwaith casglu data. Mae'r data'n cael ei ddefnyddio i ddadansoddi effeithiolrwydd y gwasanaeth. Mae'r

data diweddaraf ar nifer y newydd-ddyfodiaid (FTEs) i'r system cyfiawnder troseddol ieuenctid yn dangos bod gostyngiad sylweddol wedi bod mewn newydd-ddyfodiaid yng Nghymru ac yn ardal Dyfed-Powys. Mae hwn yn ddangosydd arwyddocaol o ran nodi ac arddangos effaith y gwaith atal a wneir gan Dimau Troseddu ac Atal Troseddau Ieuenctid.

## Cam-drin Domestig

Er mwyn gwella'r cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig, gweithiais yn agos gyda'r pedwar awdurdod lleol i gydgomisiynu contract sengl ar gyfer darparu Gwasanaethau Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) ar gyfer dioddefwyr risg uchel ledled ardal Dyfed-Powys, ynghyd ag ariannu cymorth ychwanegol i ddioddefwyr ar unrhyw lefel o risg. Mae hyn wedi arwain at ddarparu gwasanaeth cyfannol, di-dor i ddioddefwyr.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y ddarpariaeth IDVA ar gael o fewn y llysoedd, ac mae'n gweithio'n agos gyda phartneriaid iechyd er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael cynnig cymorth ar adeg sydd yn aml y cyswllt cyntaf hanfodol â gwasanaethau iechyd rheng flaen.

Mae hwn yn faes datblygu arbennig o gyffrous ac edrychaf ymlaen at weld i ble mae'n arwain y gwasanaeth.

Mae'r Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC) yn cyhoeddi cyhoeddiadau rheolaidd ar sut mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn gwneud gwahaniaeth. Rwy'n falch o ddweud bod y gwaith uchod wedi ymddangos yn un o'r cylchlythyrau hyn: PCCs Making a Difference - Putting Victims First.

Hafan Cymru

**Mae canlyniadau cynnar y gwasanaeth yn hynod o gadarnhaol:**

**Mae 72% o gleientiaid yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well ag agweddau ar fywyd bob dydd ar ôl gadael y gwasanaeth;**

**Mae 77% yn teimlo'n fwy hyddysg a'u bod wedi'u grymuso i weithredu;**

**Mae 76% o gleientiaid yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel.**

### Mae adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn amlinellu gwir werth y gwasanaeth:

*"Dydw i ddim yn teimlo y byddwn i wedi ymdopi oni bai am gefnogaeth yr IDVA. Wnaeth hi erioed fy marnu; roedd hi'n fy nghefnogi ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi drwy gydol y broses, gan fynd â mi i'r lloches ar adeg waethaf fy mywyd. Rydw i am ddiolch i fy IDVA o waelod fy nghalon am bopeth y mae wedi'i wneud i mi, mae hi wedi bod yn angel yn fy mywyd."*

*"Allaf i ddim gorbwysleisio gwerth y cymorth hwn, mae menywod yn fy sefyllfa i ar eu mwyaf bregus, yn teimlo'n anobeithiol ac o dan straen emosiynol, gall pethau fynd o chwith yn hawdd, mae llawer o ddyddiau pan mae'n ymddangos yn haws dychwelyd at y camdriniwr yn hytrach na dod o hyd i'r nerth i sefyll ar eich pen eich hun, mae cael rhywun sy'n synhwyrol, sensitif a gwybodus ar yr adeg hon wedi bod yn amhrisiadwy i mi a fy merch. Allaf i ddim diolch ddigon i chi am y gwasanaeth yr ydych yn ei gynnig."*

## Cam-drin Rhywiol

Mae New Pathways yn parhau i ddarparu mynediad 24 awr y dydd i gymorth mewn argyfwng i ddioddefwyr cam-drin rhywiol, a chefnogaeth barhaus mewn amgylchedd diogel sy'n cynnig diogelwch a gofal clinigol a fforensig arbenigol.

Cafodd y gwasanaeth 776 o atgyfeiriadau ar gyfer 2019/2020, gyda 44% o'r adroddiadau hyn ar gyfer achosion hanesyddol. Hefyd, roedd 468 o atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau cwnsela, gyda 25% o'r rhain ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae fy ngwaith i gyda'r tri Heddlu arall a phartneriaid Iechyd yng Nghymru yn parhau er mwyn cyflwyno model diwygiedig ar gyfer gwasanaethau cam-drin rhywiol ledled Cymru. Fel rhan o hyn, mae fy Swyddfa wedi bod yn allweddol o ran adolygu'r galw presennol i helpu i lywio sut y dylai'r gwasanaeth newydd edrych.

Yn ystod 2019/2020, sicrhaodd fy Swyddfa gyllid ychwanegol hefyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn cael Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) llawn amser i ddarparu gwaith allgymorth ar draws tirwedd wledig ardal Dyfed-Powys. Mae'r math hwn o waith yn hanfodol er mwyn cyrraedd dioddefwyr o fewn ardal Heddlu sy'n ymestyn dros fwy na hanner tirwedd Cymru.

New Pathways

### Mae adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn amlinellu gwir werth y gwasanaeth:

*"Mae'r gefnogaeth wedi bod yn gadarnhaol i mi. Dim ond i fod â rhywun i siarad â mi a pheidio â'm barnu. Cael dysgu dulliau ymdopi. Byddai'r cymorth wedi gallu bod yn well pe bai gen i fynediad at therapi cyn yr achos llys" (Menyw, 26 oed)*

*"Allwn i byth â bod wedi dod drwy ymchwiliad pedair mlynedd heb gefnogaeth fy ISVA." (Cleient gwrywaidd, yng nghanol ei 50au)*

## Embrace Child Victims of Crime

Mae Embrace Child Victims of Crime yn elusen sy'n cefnogi plant sydd wedi dioddef trosedd, ledled y DU bob dydd. Mae'r elusen yn gweithio gyda swyddogion yr heddlu ym mhob heddlu yn y DU i gynnig cymorth ymarferol ac emosiynol. Yn 2018 deuthum yn Ymddiriedolwr Embrace Child Victims of Crime er mwyn cefnogi ei gwaith da ac annog i'r gwaith gael ei ddefnyddio'n lleol yn ardal Dyfed-Powys ac ar draws Cymru.

Yn ystod 2019/2020, parheais yn y rôl bwysig hon ac fel rhan o'm hymrwymiad, ar 28 Ebrill 2019, rhedais farathon Llundain; rwy'n falch o ddweud fy mod wedi gorffen ac, wrth wneud hynny, fy mod wedi codi dros £1,000 i gefnogi'r elusen.




embrace
Child Victims Of Crime

## Cyfiawnder Adferol

Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru'n parhau i ddarparu cyfiawnder adferol sy'n cael ei arwain gan ddioddefwyr ledled ardal Dyfed-Powys, gyda hwyluswyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig yn gweithio i roi cyngor ac arweiniad i ddioddefwyr troseddau ar sut i ymdopi â'r cyfnod ar ôl trosedd.

Yn ystod 2019/2020, gwnaed 8 atgyfeiriad i Gwmni Adsefydlol Cymunedol Cymru; 6 dioddefwr gwrywaidd a 2 ddioddefwr benywaidd. Ar gyfer pob achos, mae llawer o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer paratoi'r dioddefwr a'r troseddwr ar gyfer y broses, ac mae dioddefwyr yn cael cymorth parhaus cyn, yn ystod ac ar ôl y gynhadledd er mwyn sicrhau bod eu profiad mor ddiogel a chadarnhaol â phosibl.

Rwy'n awyddus i sicrhau bod dioddefwyr yn gwbl ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael o ran cyfiawnder adferol. Bydd hyn yn rhan o'r gwaith prosiect dioddefwyr yn ystod 2020/2021 a byddaf hefyd yn ei drafod gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill yng Nghymru er mwyn sicrhau cysondeb yn y cymorth a gynigir i ddioddefwyr.

Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru Wales Community Rehabilitation Company

PRAWF PROBATION

## Bodlonrwydd Dioddefwyr

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal cyfweliadau ffôn gyda dioddefwyr i weld pa mor fodlon oeddent ar y gwasanaeth a gawsant. Rwy'n cael gwybod am ganlyniadau'r arolygon hyn, gan eu bod yn hollbwysig o ran dysgu'r Heddlu a'r gwasanaeth a ddarperir.

Yn ystod 2019/2020, cynhaliwyd 808 o gyfweliadau ffôn gyda dioddefwyr troseddau. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn dangos bod 85% o'r dioddefwyr yn fodlon â'r 'profiad cyfan', gyda 82% yn fodlon ar y driniaeth a gawsant gan yr heddlu.

Rwyf wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yng Nghymru yn ystod 2019/2020 er mwyn sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o gael adborth gan ddioddefwyr a sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth ein gilydd ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i wella gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn parhau yn 2020/2021.

## Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr

Ar 1 Tachwedd 2019, lansiwyd menter amlasiantaeth newydd, gyda'r nod o ddargyfeirio troseddwyr lefel isel i ffwrdd o'r System Cyfiawnder Troseddol, a lleihau aildroseddu yn ardal yr heddlu. Y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr, a ariannwyd gennyf fi, oedd y cyntaf o'i fath i gael ei roi ar waith yng Nghymru.

Drwy'r Cynllun, mae troseddwyr sy'n gymwys yn cael y cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i gadw allan o'r System Cyfiawnder Troseddol. Bydd gan lawer o'r rhain anghenion sylfaenol sylweddol, megis camddefnyddio sylweddau neu ddyled ariannol a risg o golli tenantiaethau. Mae'r Cynllun hwn yn rhoi asesiad cynhwysfawr iddynt, ac yn rhoi rhaglen gymorth ar waith gyda mynediad uniongyrchol i asiantaethau fel Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed a Kaleidoscope.

Mae gwasanaeth Gofal a Chymorth Pobl, y dyfarnwyd y contract iddynt, yn gweithio ar y cyd ag amrywiaeth eang o sefydliadau i sefydlu llwybrau atgyfeirio at ymyriadau gwasanaeth cyffredinol ac arbenigol.

Ers ei lansio, mae 372 o atgyfeiriadau wedi'u gwneud at y Cynllun, ac mae 82% ohonynt wedi manteisio ar hyn. Yn ôl yr hyn a gyfrifwyd ym mis Ebrill 2020, roedd 46 o droseddwyr wedi cwblhau'r contract 4 mis yn llwyddiannus ac wedi ymadael â'r Cynllun.

Caiff tri chanlyniad allweddol eu hasesu gan y troseddwyr o ran yr effaith y mae'r Cynllun wedi ei chael ar eu bywydau:

| | |
|---|---|
| **Wedi fy ngalluogi i wneud dewisiadau cadarnhaol** | **92.5%** |
| **Wedi fy ngrymuso i wneud newidiadau cadarnhaol** | **84.5%** |
| **Wedi gwella diogelwch** | **86.5%** |

Rwy'n falch o'r Cynllun hwn, ac roeddwn wrth fy modd pan ymddangosodd mewn cyhoeddiad arall gan yr APCC: PCCs Making A Difference: Alcohol and Drugs In Focus.

## Goleudy

Drwy gydol 2019/2020, parhaodd Goleudy i gefnogi dioddefwyr a thystion troseddau, cam-drin domestig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws ardal Dyfed-Powys, ar fy rhan: derbyniodd 13,705 o ddioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol eu cefnogaeth. Datgelodd holiaduron fod bron i 100% o'r dioddefwyr a holwyd yn teimlo'n fwy diogel ac yn fwy gwybodus o ganlyniad i'w cyswllt â Goleudy. Dywedodd dioddefwyr hefyd eu bod yn teimlo'n fwy abl i ymdopi ag effaith y drosedd.

Dywedodd bron i hanner y dioddefwyr a ddewisodd beidio manteisio ar y cynnig o gymorth gan Goleudy fod ganddynt rwydweithiau cymorth eisoes ar waith, drwy eu teulu, eu ffrindiau a'u cymuned. Roedd 20% arall nad oeddent yn teimlo'u bod wedi'u heffeithio gan y drosedd. Mae'n hanfodol ein bod hefyd yn cydnabod ac yn annog y rhwydweithiau lleol hyn o gefnogaeth, gan eu bod yn bwysig i'r broses adfer.

Fel rhan o'm hymgyrch i wella'r gwasanaethau a gynigiwn i ddioddefwyr yn barhaus, fe wnes i gomisiynu adolygiad annibynnol o wasanaeth Goleudy i ddioddefwyr a thystion ym mis Tachwedd 2019. Rhoddodd hyn ganfyddiadau pwysig i mi a nifer o argymhellion i'w hystyried. Byddaf yn defnyddio'r rhain, ynghyd â'r adolygiad craffu dwys a gynhaliwyd gan fy swyddfa ar ddioddefwyr yn tynnu'n ôl, i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau dioddefwyr yn 2020/2021.

# Blaenoriaeth 3 Amddiffyn ein Cymunedau rhag Bygythiadau Difrifol




Mae'n allweddol fy mod yn gallu rhoi gwybodaeth i'n cymunedau er mwyn eu galluogi i helpu i ddiogelu eu cymunedau eu hunain rhag bygythiadau difrifol. Yn aml, byddaf yn rhannu negeseuon, ymgyrchoedd a gwybodaeth allweddol yn fy Nghylchlythyr – Cyswllt Cymunedol, ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Cynhadledd Plismona mewn Ardaloedd Gwledig

Mae'r nifer o gymunedau gwledig anghysbell ar draws ardal Dyfed-Powys yn cyflwyno heriau o ran lleihau'r llwybrau troseddol posibl. Yn fy mhedwaredd Gynhadledd Gŵyl Dewi flynyddol, gwahoddais siaradwyr a fyddai'n gallu rhoi gwybodaeth hanfodol i'r rhai a oedd yn bresennol am heriau plismona mewn ardaloedd gwledig.

Roedd y digwyddiad yn gyfle amhrisiadwy i fynychwyr a siaradwyr rannu ein gwybodaeth a'n harferion gorau o ran mynd i'r afael â throseddau gwledig a delio â materion gwledig. Mae'r wybodaeth o'r gynhadledd i'w rhannu drwy ein cymunedau gwledig lleol.

Gyda chyfraniadau gan dîm Troseddau Difrifol a Threfnedig yr Heddlu a thîm Troseddau Gwledig yr Heddlu, roedd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth yn thema allweddol a amlygwyd yn ystod y gynhadledd. Yn 2019/20, cynhaliodd Prifysgol Aberystwyth ail astudiaeth troseddau gwledig ar fy rhan. Nododd adborth a roddwyd yn ystod y gynhadledd fod y gymuned ffermio a'r gymuned wledig ehangach yn gweld cynnydd o ran



ymchwilio i ddigwyddiadau troseddol a mwy o ymddiriedaeth yn yr heddlu'n fwy cyffredinol, sy'n adeiladu sylfeini ar gyfer mwy o waith cydweithredol yn y maes hwn.

Er mwyn darparu gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael i'n cymunedau gwledig, gwahoddais nifer o sefydliadau i fynychu'r Gynhadledd hefyd. Roedd Goleudy, cynrychiolwyr undebau'r ffermwyr, ac Emma Picton-Jones o Sefydliad DPJ yn bresennol. Bu Emma hefyd yn annerch y mynychwyr, gan drosglwyddo negeseuon allweddol ynghylch amaethyddiaeth, unigrwydd a hunanladdiad.

Rwy'n hyderus bod Heddlu Dyfed-Powys yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran brwydro yn erbyn troseddau gwledig yn yr ardal hon, ac y bydd yn parhau i wneud hynny. Rwyf wedi tynnu sylw o'r blaen at fy ymrwymiad parhaus i gefnogi'r Tîm Troseddau Gwledig ac roeddwn yn falch o glywed y Prif Gwnstabl, wrth annerch mynychwyr y Gynhadledd, yn addo adolygu adnoddau plismona gwledig.

Un o'r rhesymau dros gynnal y Gynhadledd hon oedd er mwyn asesu pa weithgarwch sydd angen ei wneud yn y dyfodol er mwyn i ni allu gwella gwasanaethau lleol ymhellach. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Prif Gwnstabl i wella gwasanaethau ymhellach.




## Yr Angel Cyllyll

Yn aml, defnyddir gwaith celf i bortreadu negeseuon allweddol a chyflwyno gwybodaeth ar draws ein cymunedau. Drwy gydol 2019/2020, teithiodd yr Angel Cyllyll, a grëwyd gan Ganolfan Gwaith Haearn Prydain yn Swydd Amwythig, o amgylch y DU mewn ymgais i gyflwyno negeseuon allweddol ynghylch trais difrifol a throseddau'n ymwneud â chyllyll. Gallwch ddysgu mwy am yr Angel Cyllyll ar wefan Canolfan Gwaith Haearn Prydain.

Mae'r cerflun 8 metr o uchder yn tynnu sylw at y rhai y mae troseddau cyllyll wedi difetha'u bywydau ac mae'n gofeb ar gyfer teuluoedd sydd mewn profedigaeth. Mae'n codi ymwybyddiaeth o fewn y cymunedau y mae'n ymweld â nhw drwy ddarparu canolbwynt, er mwyn cwestiynu'r colledion a'r marwolaethau ofer a hefyd gefnogi'r heddlu a rhaglenni addysg ysgolion. Gwnaethom yr union beth hwnnw yn y Drenewydd. Gan weithio gyda'r heddlu lleol a'r Cynghorydd Sir Joy Jones, lansiwyd rhaglen lwyddiannus iawn o weithgarwch ymgysylltu â phobl ifanc ar draws y dref a barodd am fis, yn rhannu negeseuon gwrth-drais a gwrth-ymddygiad ymosodol.







Roedd y gweithgarwch ymgysylltu'n canolbwyntio ar weithio gyda phlant ysgol, gweithgareddau gyda grwpiau cymunedol a darparu sesiynau troseddu â chyllyll a gwrth-drais drwy brosiect Fearless, Crimestoppers. Tudalen 25

## Twyll

Ym mis Hydref 2018, datblygwyd swydd Swyddog Diogelu Twyll yn Adran Ymchwiliadau Troseddol Heddlu Dyfed-Powys; swydd yr ydw i'n ei hariannu'n rhannol (50%). Parheais i'w hariannu'n rhannol yn 2019/20, a chefais ddiweddariadau rheolaidd ynghylch y gwasanaeth pwysig a ddarparwyd.

Mae'r Swyddog Diogelu Twyll yn cydlynu Ymgyrch Signature a'r Protocol Bancio. Mae Ymgyrch Signature yn nodi ac yn cefnogi dioddefwyr twyll sy'n agored i niwed ac yn darparu mesurau ataliol a chefnogol i amddiffyn dioddefwyr a'u diogelu rhag targedu pellach.

Mae'r Protocol Bancio yn gynllun cenedlaethol rhwng yr Heddlu a'r sector ariannol. Ei nod yw nodi cwsmeriaid banc sydd wrthi'n cael eu twyllo, a'u cyfeirio at Ymgyrch Signature. Mae nifer atgyfeiriadau'r Protocol Bancio, ers i'r cynllun ddechrau ym mis Awst 2017, ynghyd â faint o arian a ataliwyd rhag cael ei golli, fel a ganlyn:

Rhwng 1 Chwefror a 18 Mawrth 2020, derbyniodd Action Fraud 105 o adroddiadau gan ddioddefwyr ynghylch twyll yn gysylltiedig â'r coronafeirws, gyda cholledion yn dod i gyfanswm o bron i £970,000. Action Fraud yw canolfan genedlaethol y DU ar gyfer rhoi gwybod am dwyll a throseddau ar y rhyngrwyd. Ddiwedd mis Mawrth 2020, wrth i Action Fraud UK gyhoeddi cynnydd o 400% o ran twyll yn gysylltiedig â'r Coronafeirws, manteisiais ar y cyfle i rybuddio trigolion yn ein cymunedau i fod yn wyliadwrus ac addasu ar gyfer seiberdroseddu, yn enwedig sgamiau gwe-rwydo.

### Enghraifft o'r gwaith a wnaed o dan Ymgyrch Signature:

*"Collodd y dioddefwr, a oedd yn ynysu gartref ac yn dioddef o symptomau Covid-19, £20,000 trwy dwyll. Cafodd ei dwyllo gan alwad 'taliad gwthio' ddiwahoddiad ac, oherwydd ei salwch a'i unigrwydd mae'n debyg, gadawodd i'w gynilion oes gael eu trosglwyddo allan o'i gyfrif banc, heb yn wybod iddo. Roedd y dioddefwr wedi torri'i galon ar ôl colli'r arian. I ddechrau, gwrthododd ei fanc ad-dalu'r colledion. Fodd bynnag, drwy waith Ymgyrch Signature, ailystyriodd y banc ac ad-dalwyd y swm cyfan."*

**Mae nifer atgyfeiriadau Ymgyrch Signature fel a ganlyn:**

| | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Atgyfeiriadau** | 407 | 455 |
| **Risg Uchel** | 58 | 47 |
| **Risg Cymedrol** | 95 | 104 |
| **Ymgysylltiad uniongyrchol gan y swyddog** | 45 | 85 |
| **Cyfanswm yr arian a ddygwyd** | £1,710,006 | £2,367,347 |

**Mae'r nifer o'r dargyfeiriadau Protocol Bancio fel a ganlyn:**

| | 2017/ 2018 | 2018/ 2019 | 2019/ 2020 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Atgyfeiriadau** | 22 | 53 | 80 |
| **Cyfanswm yr Arian a Ataliwyd rhag cael ei Golli** | £274k | £464k | £2.7m |

## COVID-19

Ddechrau 2020 gwelwyd dyfodiad COVID-19; bygythiad difrifol i'n cymunedau lleol. Cadarnhawyd yr achos cyntaf o COVID-19 yng Nghymru ar 28 Chwefror 2020, ac ar 23 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyfyngiadau er mwyn lleihau lledaeniad y coronafeirws (COVID-19).

O ddiwrnod cyntaf y pandemig hwn, rwyf wedi bod mewn cysylltiad agos â'r Prif Gwnstabl yn gofyn am sicrwydd ganddo - ar ran y cyhoedd – ynglŷn â threfniadau'r Heddlu wrth ddelio â'r pandemig COVID-19.

Mae cyfarfodydd rhithiol rheolaidd wedi cael eu cynnal, fel y gallwn, gyda'n gilydd, sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn darparu gwasanaeth heddlu sy'n diwallu anghenion presennol ein cymunedau. Mae'r gweithgareddau hyn yn parhau i mewn i 2020/2021, er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Gweler adran Edrych Ymlaen yr adroddiad hwn i gael rhagor o fanylion am fy ymateb i'r pandemig COVID-19.

# Blaenoriaeth 4 Cysylltu â Chymunedau

## Gwirfoddolwyr

Ar hyn o bryd mae gennyf 67 o wirfoddolwyr yn gweithio gyda mi i helpu i fonitro a sicrhau proffesiynoldeb o fewn Heddlu Dyfed-Powys, fel; Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, Ymwelwyr Lles Anifeiliaid, aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd, a Llysgenhadon Ieuenctid. I ddarllen mwy am y rolau hyn, ewch i'm gwefan.

## Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Mae'n ofyniad statudol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gael Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd. Mae fy Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn rhoi sicrwydd annibynnol i mi y caiff unigolion a gedwir yn y ddalfa eu trin yn briodol ac yn deg yn ardal Dyfed-Powys.

Yn ystod 2019/2020, cynhaliwyd cyfanswm o 208 o ymweliadau gan fy Ymwelwyr Annibynnol â dalfeydd ar draws ardal yr Heddlu; yn ystod y cyfnod hwnnw roedd 305 o garcharorion yn y ddalfa. O'r rhain, roedd 146 o garcharorion wedi cydsynio i gael ymweliad, ac arsylwyd ar 66 o garcharorion.

Cafodd materion a godwyd eu hadrodd i Arolygwyr Dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys



a'u trosglwyddo i'r unigolion perthnasol i weithredu arnynt. Mae rhagor o fanylion am y materion a godir a'r cynnydd a wneir i'w gweld yn y diweddariadau chwarterol ar Ymwelwyr Annibynnol a gyhoeddir ar fy ngwefan.

Ym mis Tachwedd 2019 cefais y cyfle i gysgodi Ymwelwyr Annibynnol ar ymweliad â Dalfa'r Drenewydd i weld y gwiriadau a wnânt a'r newidiadau a'r gwelliannau a ysgogir ganddynt.

I gael rhagor o wybodaeth am fy nghynllun Ymwelwyr Annibynnol, darllenwch Adroddiad Blynyddol Cynllun Ymweliadau Annibynnol â'r Ddalfa 2019/20.

## Peilot Arsylwyr Annibynnol mewn Dalfeydd

**Datblygiad pwysig ar gyfer fy Nghynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd**

Ym mis Medi 2019 daethom yn un o bum ardal Heddlu, a'r unig un yng Nghymru, i gymryd rhan yn y Cynllun Peilot 'Arsylwyr Annibynnol mewn Dalfeydd' Cenedlaethol.

Nod y Cynllun Peilot 6 mis, a gynhelir gan yr ICVA, yw diogelu ymhellach les y rhai sy'n cael eu nodi fel rhai bregus yn nalfeydd yr heddlu, gan gynnwys pobl ifanc. Yn ystod y cam cyntaf hwn, cynhaliodd fy Ymwelwyr Annibynnol adolygiadau rheolaidd o gofnodion dalfa carcharorion a oedd yn agored i niwed, gan roi cyfle iddynt ystyried taith gyfan carcharorion yn y ddalfa. Maent yn ystyried yn fanwl a yw unigolion sy'n agored i niwed wedi cael eu dal yn unol â'u hanghenion ac yn unol â Rheoliadau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE), gan ein helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o unrhyw faterion cyfredol a lleol.

Lansiwyd ail gam y Cynllun Peilot - a dreialwyd yn ardal Sir Benfro - ar 24 Ionawr 2020, ac mae wedi dod â rhai newidiadau i'r ymweliadau annibynnol.

Gyda chydsyniad y rhai sy'n cael eu dal, gall Ymwelwyr Annibynnol arsylwi rhai o'r gweithdrefnau nad oeddent wedi'u hadolygu'n flaenorol yn y ddalfa, fel y gweithdrefnau ar gyfer derbyn a rhyddhau. Mae Ymwelwyr Annibynnol yn ateb cwestiynau amrywiol ar gofnodion y ddalfa a'u harsylwadau, megis a yw unigolion wedi cael eu hysbysu o'u hawliau a bod Oedolyn Priodol wedi cael ei alw os oes angen. Mae'r gwiriadau ychwanegol hyn yn amlygu mwy o broses y ddalfa i'm Hymwelwyr Annibynnol, gan roi darlun gwell iddynt o gyfanrwydd y gofal a roddir i garcharorion sy'n agored i niwed ar draws dalfeydd Dyfed-Powys.

## Cymeradwyaeth i'r Cynllun

Ym mis Mai 2019 derbyniodd fy Nghynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd safon Aur yng Ngwobrau Sicrhau Ansawdd y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA), sy'n dangos bod fy Nghynllun yn darparu safon ragorol o ran ymweliadau â dalfeydd a rheoli gwirfoddolwyr. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

Dywedodd Katie Kempen, Prif Weithredwr yr ICVA: *"Mae Cynlluniau Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael trosolwg o faes plismona pwysau uchel sy'n aml yn guddiedig. Mae'r gwobrau hyn yn dangos sut mae cynlluniau lleol yn defnyddio adborth gan wirfoddolwyr i wneud newidiadau a sicrhau bod cael eich dal gan yr heddlu'n ddiogel ac yn urddasol i bawb. Rwy'n llongyfarch y cynlluniau ar eu llwyddiannau."*



## Ymwelwyr Lles Anifeiliaid

Yn ystod 2019/2020, gwnaeth fy 7 Ymwelydd Lles Anifeiliaid 24 o ymweliadau â Thrinwyr Cŵn Heddlu Dyfed-Powys, gan weld 44 o gŵn. Yn galonogol, ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas â lles Cŵn yr Heddlu.

Yn ystod mis Tachwedd 2019, cynhaliais Ddiwrnod Hyfforddiant a Diolch Blynyddol lle cafodd y gwirfoddolwyr ddiweddariadau gan yr Adran Gŵn ar eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf a mewnbwn ar hyfforddiant gan Ymddiriedolaeth y Cŵn mewn perthynas â'r 'Pum Rhyddid'.

Ym mis Mai 2019, fe es i gydag un o'r gwirfoddolwyr ar ymweliad; roedd yn wych cael y cyfle i weld y gwiriadau trylwyr a wneir ganddynt.




## Llysgenhadon Ieuenctid

Yn fy Adroddiad Blynyddol diwethaf, dywedais y byddwn, yn ystod 2019/2020, ynghyd â gwaith parhaus fy Fforwm Ieuenctid, yn gwrando ar farn cynifer o bobl ifanc â phosibl ar draws ardal Dyfed-Powys, er mwyn i'w llais ddod yn rhan annatod o'm proses o wneud penderfyniadau. Comisiynais Hafan Cymru i weithio gyda'm Llysgenhadon Ieuenctid er mwyn dod o hyd i ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc.

Fel rhan o'r gwaith hwn, ar fy rhan, trefnodd Hafan Cymru gyfres o weithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc ar draws pedair sir ardal Dyfed-Powys, gan feithrin cysylltiadau â phartneriaid ieuenctid. Rwy'n falch iawn bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi ymuno â ni hefyd ar y gwaith a gomisiynwyd, gan ein bod yn credu bod llawer o'r problemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yn berthnasol i iechyd yn ogystal â phlismona.

Cefais gyfle i drafod rhai o ganfyddiadau'r arolwg gyda phartneriaid allweddol mewn Cynhadledd Ieuenctid a gynhaliais ym mis Mawrth 2020, ac a fydd, gobeithio, yn gatalydd i ragor o waith ystyrlon gyda'n pobl ifanc, gan helpu i lywio darpariaeth plismona a gwasanaethau iechyd.



## Confensiwn Plismona Ieuenctid Cymru Gyfan

Ym mis Tachwedd 2019, cefais y fraint o lywyddu'r Confensiwn Plismona Ieuenctid cyntaf ar gyfer Cymru Gyfan, a noddwyd gan Elin Jones, ein Llywydd yn y Senedd yng Nghaerdydd. Dyma'r tro cyntaf i bedwar heddlu Cymru ddod at ei gilydd i roi stamp Cymreig ar waith y cadetiaid ac i gydnabod yr effaith a gânt ar ein cymunedau.

Fel y nodais yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, rwy'n awyddus i gael pobl ifanc i gymryd mwy o ran ac i ddweud eu dweud am blismona a throseddu yn eu cymunedau lleol. Yn ogystal â rhoi cyfle i'n gwirfoddolwyr ifanc rannu arferion gorau gyda'u cyfoedion, roedd y Confensiwn hefyd yn galluogi'r pedwar heddlu yng Nghymru i ddysgu gan y bobl ifanc hyn am y ffordd orau i'r gwasanaeth heddlu ymgysylltu â chenedlaethau'r dyfodol.






Byddaf yn parhau i gefnogi a hyrwyddo'r gwaith rhagorol a wneir gan wirfoddolwyr ifanc o fewn ein cymunedau.

## Ymgysylltu

Mae'r map canlynol yn dangos lleoliad fy ngweithgarwch ymgysylltu.



| | | |
|---|---|---|
| **Ebrill 2019** | | |
| Cyfarfod â Chyngor Tref Llandrindod | Llandrindod | Powys |
| Ffair Adfywio | Llandysul | Ceredigion |
| Gwaith ymgysylltu yn gysylltiedig â gosod TCC yn y Drenewydd | Y Drenewydd | Powys |
| Gwaith ymgysylltu yn gysylltiedig â gosod TCC yn y Trallwng | Y Trallwng | Powys |
| Gwaith ymgysylltu yn gysylltiedig â gosod TCC yn Llandrindod | Llandrindod | Powys |
| Sgwrs yng Nghlwb Cinio Crwbin | Llangyndeyrn | Sir Gaerfyrddin |
| Diwrnod Ymgysylltu #YmgyrchDarwen | Llanymddyfri | Powys |
| Cyfarfod â Chyngor Tref Aberystwyth | Aberystwyth | Ceredigion |
| Digwyddiad Diogelu Anthony Evans | Aberystwyth | Ceredigion |
| Digwyddiad Atal Troseddau Gwledig | Hendy-gwyn ar Daf | Sir Benfro |
| Cyfarfod â Chyngor Dinas Tyddewi | Tyddewi | Sir Benfro |
| **Mai 2019** | | |
| Clwb Cinio Merched | Aberystwyth | Ceredigion |
| Ymgysylltu yng nghyswllt 'Pinc dros Ymchwil i Ganser' | Llandrindod | Powys |
| Digwyddiad gyda'r Nos ynglŷn â Throseddau Gwledig yn Llwyncelyn | Aberaeron | Ceredigion |
| Ymgysylltu yng Ngŵyl y Gelli | Y Gelli | Powys |
| **Mehefin 2019** | | |
| Diwrnod Ymgysylltu â'r Gymuned yn y Trallwng | Y Drenewydd | Powys |
| Swper a Chân - Llangynnwr | Abergwili | Sir Gaerfyrddin |
| Sgwrs gyda'r Clwb Rotari - Grŵp y Gwanwyn | Aberystwyth | Ceredigion |
| Sgwrs â Chymdeithas Ymddeol y Gwasanaeth Iechyd Gwladwriaethol | Aberystwyth | Ceredigion |
| **Gorffennaf 2019** | | |
| Diwrnod Agored Gorsaf Heddlu Aberhonddu | Aberhonddu | Powys |
| Gwledd y Cymrodorion | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Sioe Frenhinol Cymru | Llanfair-ym-Muallt | Powys |
| Sesiwn ymgyfarwyddo â Gyrfa – Ymgysylltu â myfyrwyr | Pencadlys yr Heddlu | Sir Gaerfyrddin |
| Diwrnod Ymgysylltu â'r Gymuned yn Llanelli | Llanelli | Sir Gaerfyrddin |
| **Awst 2019** | | |
| Diwrnod Agored Gorsaf Heddlu'r Drenewydd | Y Drenewydd | Powys |
| Sioe Sir Benfro | Hwlffordd | Sir Benfro |
| Sioe Tregaron | Tregaron | Ceredigion |
| Diwrnod Hwyl Teuluol Llwynhendy | Llanelli | Sir Gaerfyrddin |
| Diwrnod Hwyl Teuluol Tyisha | Llanelli | Sir Gaerfyrddin |
| **Medi 2019** | | |
| Diwrnod Ymgysylltu Cymunedol Crymych | Crymych | Sir Benfro |
| Cyfarfod â Chynghorwyr Tref Llanelli | Llanelli | Sir Gaerfyrddin |
| Ymgysylltu drwy Brosiect Edward yn Ysgol Gynradd Llyswen | Aberhonddu | Powys |
| Cyfarfod â Phartneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Gaerfyrddin | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Sgwrs yn Nghylch Cinio Teifi | Gwbert | Ceredigion |
| **Hydref 2019** | | |
| Ymgysylltu yng Ngwesty'r Cawdor, Llandeilo | Llandeilo | Sir Gaerfyrddin |
| Cynnal Digwyddiad TCC ym Mhencadlys yr Heddlu | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Cynnal Ail Ddigwyddiad TCC ym Mhencadlys yr Heddlu | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Cyfarfod â Chyngor Gwledig Llanelli | Llanelli | Sir Gaerfyrddin |
| Sgwrs â Merched y Wawr Tymbl | Tymbl | Sir Gaerfyrddin |











| | | |
|---|---|---|
| **Tachwedd 2019** | | |
| Diwrnod Ymgysylltu Cymunedol Llandrindod | Llandrindod | Powys |
| Diwrnod Ymgysylltu â'r Gymuned yn y Trallwng / y Drenewydd | Y Drenewydd | Powys |
| Ymgysylltu ag Arad Goch | Aberystwyth | Ceredigion |
| Dadorchuddio'r Garreg Goffa gyda Chyngor Cymuned Llangynnwr | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Taith Gerdded wrth Olau Cannwyll - Digwyddiad Rhuban Gwyn | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Sgwrs â Chymdeithas Capel Mair | Aberteifi | Ceredigiom |
| Ymgysylltu yn y Ffair Aeaf, Maes y Sioe Frenhinol | Llanfair-ym-Muallt | Powys |
| **Rhagfyr 2019** | | |
| Digwyddiad Pêl-droed Rhuban Gwyn | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| **Ionawr 2020** | | |
| Seremoni Agoriadol yr Angel Cyllyll | Y Drenewydd | Powys |
| Diwrnod Ymgysylltu yr Angel Cyllyll | Y Drenewydd | Powys |
| **Chwefror 2020** | | |
| Sgwrs â Grŵp Merched Penrhiwllan | Penrhiwllan | Ceredigion |
| Sgwrs ag Un Llais Cymru | Aberaeron | Ceredigion |
| Sgwrs â Merched y Wawr, Llangyndeyrn | Llangyndeyrn | Sir Gaerfyrddin |
| Diwrnod Ymgysylltu Cymunedol Neyland | Neyland | Sir Benfro |
| Cynnal Trydydd Digwyddiad TCC ym Mhencadlys yr Heddlu | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Ymweliad â'r Cwt Ieuenctid yng Nghydweli | Cydweli | Sir Gaerfyrddin |
| Ymweliad â Phrosiect Seaside Kicks | Llanelli | Sir Gaerfyrddin |
| Ymweliad â'r Grŵp Cefnogi Iselder, Shadows, yn Rhydaman | Rhydaman | Sir Gaerfyrddin |
| Sgwrs â Merched y Wawr Aberaeron | Aberaeron | Ceredigion |
| Gwaith ymgysylltu yn gysylltiedig â gosod TCC yn Ystradgynlais | Ystradgynlais | Powys |
| Digwyddiad Pobl Ifanc Wych Caerfyrddin | Llanelli | Sir Gaerfyrddin |
| **Mawrth 2020** | | |
| Ymgysylltu yn Nathliadau Dydd Gŵyl Dewi yng Nghaerfyrddin | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Llywyddu Cynhadledd Ieuenctid | Llanelli | Sir Gaerfyrddin |
| Llywyddu Cynhadledd Troseddau Gwledig | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Siarad â Chwirliath Siolam | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| Siarad â Merched y Wawr Bro Ddewi | Festri Seion | Sir Benfro |
| Digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod y WSSP | Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |

Yn ystod 2019/2020, teithiodd fy nhîm ymgysylltu a minnau ledled ardal yr Heddlu i gyfarfod â chymunedau lleol ac ymgysylltu â hwy drwy weithgareddau amrywiol.

Mae bob amser yn anrhydedd cael fy ngwahodd i siarad mewn digwyddiadau cymunedol / cyhoeddus fel clybiau cinio, Merched y Wawr, neu gyfarfodydd cyhoeddus agored. Mae'n bwysig bod y cyhoedd yn ymwybodol o'm rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a'u bod yn rhannu'r wybodaeth honno yn eu cymunedau eu hunain. Mae hefyd yn ddiddorol cael gwybod gan y grwpiau hyn beth yw eu barn am eu gwasanaeth plismona lleol; a oes unrhyw faterion lleol a pha fath o berthynas sydd ganddynt â swyddogion heddlu lleol. Yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, dywedais y byddwn yn annog rhyngweithio wyneb yn wyneb rhwng yr heddlu a'r cyhoedd. Rwyf am weld swyddogion lleol yn defnyddio cyfleoedd o fewn y gymuned i ryngweithio ac ymgysylltu.

Roedd yn bwysig fy mod yn parhau i ymwneud â'r prosiect câmerau Teledu Cylch Cyfyng (TCC) yn ystod 2019/2020, wrth i'r prosiect gyrraedd ei gamau terfynol. Ymwelodd fy nhîm a minnau â'r trefi lle'r oedd camerâu TCC naill ai wedi bod yn cael eu gosod yn ddiweddar neu lle'r oedd hynny ar y gweill. Aethom i ymweld â busnesau lleol a siarad â thrigolion lleol, gan roi gwybod iddynt am leoliadau'r camerâu TCC, esbonio pam roedd y camerâu'n cael eu gosod, ac, yn bwysig, sut y gallai eu cymunedau elwa o'r camerâu.

Yn ystod fy Niwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned, rwy'n treulio amser mewn ardal benodol yn canfod anghenion y gymuned honno yn uniongyrchol yng nghyswllt plismona. Mae hyn o gymorth i mi wrth i mi graffu ar ba un a yw'r Prif Gwnstabl a'i swyddogion yn darparu gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol i'r cymunedau ar draws ardal yr heddlu. Os ceir ymholiadau, neu os oes anfodlonrwydd, byddaf yn trafod y materion hyn gyda'r Prif Gwnstabl neu uwch swyddogion lleol. Rwyf hefyd yn rhoi gwybod am unrhyw ganmoliaeth am blismona lleol, er mwyn sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu a bod swyddogion yn derbyn y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu.

Mae'r diwrnodau hyn hefyd yn gyfle gwych i gael gwybod am y gwaith amhrisiadwy y mae sefydliadau ac elusennau lleol yn ei wneud; roedd rhai ohonynt wedi derbyn cyllid drwy fy Nghronfa Gymunedol fel Comisiynydd. Mae'n galonogol gallu gweld drosof fy hun y gwahaniaeth y mae fy nghyllid yn ei wneud mewn gymunedau lleol.

## Astudiaeth Achos Diwrnod Ymgysylltu â'r Gymuned – Powys, Tachwedd 2019

Dyma rai o uchafbwyntiau'r gweithgarwch ymgysylltu o'm cyfnod ym Mhowys:

### Diwrnod 1

- Cyfarfod â Linda Pepper o Dyfodol Powys Futures, yn Llandrindod i weld sut roedd eu rhaglen 'Estyn Allan' – a ariannwyd drwy fy Nghronfa Gymunedol 2019 – yn datblygu;
- Cyfarfod â Nia Lloyd, Cyfarwyddwr CFfI Cymru, yn Llanfair-ym-Muallt, wedi i'r CFfI dderbyn cyllid gan fy Nghronfa Gymunedol 2019 ar gyfer eu prosiect 'What's the Crac'; a
- Mynd i gyfarfod cyhoeddus yn Llanwrtyd; ynghyd â swyddogion y Tîm Plismona Bro lleol. Trafodwyd materion lleol, a gwnaed cysylltiad hanfodol rhwng y cyhoedd a swyddogion lleol o ganlyniad i'r cyfarfod hwn.

### Diwrnod 2

- Ymweliad dirybudd â'r Ddalfa yn y Drenewydd yn cysgodi dau o'm Hymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, a sgwrs â swyddogion yng Ngorsaf Heddlu'r Drenewydd i drafod materion lleol;
- Ymweld â Choleg Port Talbot y Drenewydd, lle y gelwais heibio i sesiwn a gyflwynwyd gan Uned Plismona Ffyrdd Powys i fyfyrwyr Safon Uwch Gwasanaethau Cyhoeddus, a chyfarfod â myfyrwyr o'r cwrs Porth i Addysg Bellach i weld rhywfaint o'r gwaith a wnaethant dros Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. Roedd hwn hefyd yn gyfle i mi egluro fy rôl a'm cyfrifoldebau i'r grwpiau;
- Cyfarfod â Sara Clutton, Rheolwr Theatr Hafren, ac



arweinydd Prosiect Ymyrraeth Ieuenctid Creadigol Hafren a gafodd arian gan fy Nghronfa Gymunedol, i weld beth oedd hanes y prosiect;
- Cyfarfod â'r Cynghorydd lleol Joy Jones i drafod materion lleol ynglŷn â throsedd a phlismona a dod â'r Angel Cyllyll i'r Drenewydd. Ar ôl y cyfarfod hwn, roeddwn yn gallu tynnu sylw at rai o bryderon Joy gyda'r personél plismona perthnasol;
- Ymweld ag Ystâd Trehafren i gwrdd â Gwen Evans, Swyddog Ieuenctid y Drenewydd a'r Trallwng a Melanie Pettit, Swyddog Ymgysylltu Cymunedol Hafren, i drafod cynlluniau ar gyfer y Prosiect Ymyrraeth Ieuenctid Creadigol a oedd yn cael ei ariannu drwy fy Nghronfa Gymunedol; ac
- Ymweld â Chlwb Ieuenctid y Drenewydd lle ceisiais farn aelodau'r clwb ieuenctid ar y gwasanaeth heddlu lleol. Trafodaeth ddiddorol, a chafodd y safbwyntiau a fynegwyd eu hystyried gan Hafan Cymru yn eu gwaith ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'm Fforwm Ieuenctid.






# Ymgynghoriadau

Mae'n bwysig bod pob aelod o'n cymunedau'n cael cyfle i rannu eu safbwyntiau â mi fel eu Comisiynydd, drwy amryw o ffyrdd. Fe wnes i gynnal nifer o ymgynghoriadau yn ystod 2019/2020 i gasglu barn preswylwyr ar nifer o faterion pwysig:

- Pennu fy Mhraesept Heddlu ar gyfer 2020/2021 (gweler Astudiaeth Achos 1);
- Cyswllt y cyhoedd â'r Heddlu (gweler adran Craffu'r Adroddiad hwn);
- Gwasanaethau plismona lleol (gweler Astudiaeth Achos 2);
- Barn pobl ifanc am blismona (gweler y wybodaeth am Lysgenhadon Ieuenctid);
- Troseddau gwledig (mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth), a
- Pennu'r amcanion cydraddoldeb o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd cyntaf.











## Astudiaeth Achos Ymgynghoriad 1: Praesept yr Heddlu

**Nod:** Darganfod faint yn fwy y byddai trigolion ardal Dyfed-Powys yn fodlon ei dalu bob mis tuag at eu gwasanaethau plismona lleol.

**Methodoleg:** Er mwyn sicrhau bod cymaint o drigolion â phosibl yn cael cyfle i rannu eu safbwyntiau, cafodd yr arolwg ei hyrwyddo mewn amrywiaeth o ffyrdd...

- Anfonwyd erthygl yn fy Nghylchlythyr at bob un o'r 333 o unigolion a oedd ar y pryd wedi tanysgrifio i'r cylchlythyr;
- Datganiad i'r wasg i'r holl gysylltiadau yn y cyfryngau ar draws ardal yr Heddlu, a gafodd ei uwchlwytho i'm gwefan hefyd a thynnu sylw ato mewn negeseuon cyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol, a rannwyd gan bartneriaid;
- Llythyrau at bob AC/AS, Cynghorwr Tref a Chymuned a Chynghorwr Sir;
- Anfonwyd dolen yr arolwg at bob darparwr gwasanaethau a oedd wedi'u comisiynu ac at fy ngwirfoddolwyr; ac
- Am y tro cyntaf, gwnaethom gysylltu â'r adran Cyfathrebu Corfforaethol i anfon 'galwad i weithredu' at bob un a oedd wedi tanysgrifio i System Negeseua Cymunedol yr Heddlu.

**Ymateb:** Rhannodd 697 o drigolion ardal Dyfed-Powys eu barn â mi.

**Canlyniadau:**

| | |
|---|---|
| £1 yn fwy | 40% (244 o ymatebwyr) |
| £1.50 yn fwy | 17% (106 o ymatebwyr) |
| **£2 yn fwy** | **43% (267 o ymatebwyr)** |

**Adborth:** Cafodd y canlyniadau uchod a'r sylwadau/awgrymiadau a gyflwynwyd eu hystyried wrth wneud fy mhenderfyniad wrth bennu lefel Praesept yr Heddlu. Ar ôl i'm cynnig gael ei dderbyn gan Banel yr Heddlu a Throseddu, rhannais y newyddion hwn gyda'r cyhoedd, mewn datganiad i'r wasg i ddechrau, ac wedyn drwy fy Hysbysiad Praesept yr Heddlu a gyflwynwyd i bob cartref o fewn dogfennaeth Hysbysiad y Dreth Gyngor.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

## Astudiaeth Achos Ymgynghoriad 2: OpCynefin Dwyrain y Drenewydd

Roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud y gwaith hwn yn flaenorol mewn lleoliadau penodol yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Roeddwn yn credu y dylai trigolion Powys hefyd gael cyfle i ddweud eu dweud.

**Nod:** Cael gwybod...

- Beth oedd barn trigolion ardal Dwyrain y Drenewydd am Heddlu Dyfed-Powys;
- Beth oedd ansawdd y berthynas rhwng trigolion lleol a'r heddlu lleol;
- Pa faterion oedd yn peri pryder i drigolion lleol;
- Sut yr oeddent am ymgysylltu â mi a'r heddlu;
- A oeddent yn ymwybodol o wahanol agweddau ar blismona, megis sut i gysylltu â'r heddlu a phwy oedd eu swyddogion lleol – y pethau yr oedd Heddlu Dyfed-Powys am iddynt eu gwybod; a
- Pha syniadau oedd ganddynt i helpu i wella'r gwasanaeth heddlu lleol.

**Methodoleg:** Dosbarthwyd arolygon i bob eiddo preswyl yn ardal Dwyrain y Drenewydd; 952 i gyd - diolch i'r Heddlu lleol a Swyddogion Cymorth Cymunedol a gynorthwyodd fy nhîm yn y broses hon.

**Ymateb:** Dychwelwyd 192 o arolygon a gwblhawyd i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) erbyn y dyddiad cau; yn rhoi cyfradd ymateb o 20%.

**Canlyniadau:** Dadansoddwyd canlyniadau'r arolwg gan fy nhîm, ac ar ôl nodi'r prif faterion a phryderon a oedd yn codi, cynhaliais gyfarfod â chynrychiolwyr o sefydliadau partner i drafod y camau oedd i'w cymryd.

**Adborth:** Cymerodd partneriaid gamau gweithredu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg, a chafodd hyn ei fwydo'n ôl i'r cyhoedd yn ystod mis Ionawr 2020 pan ddychwelais i'r Drenewydd gyda'r Angel Cyllyll.



COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

YN EICH ARDAL: Dwyrain y Drewnewydd

### FE DDWEDOCH CHI, FE WRANDAWON NI

Yng Ngorffennaf 2019, fe wnaethon ni anfon arolwg i 900+ o gartrefi yn ardal Dwyrain y Drenewydd i gasglu eich barn am faterion lleol. Ymatebodd 20% ohonoch chi, diolch. Rhannwyd eich canlyniadau gyda phartneriaid; Cyngor Sir Powys, Heddlu Dyfed-Powys a Gan Bwyll. Dyma fraslun o beth ddwedoch chi wrthym ni, a beth rydyn ni wedi ei wneud/yn mynd i'w wneud…

**"Mae sbwriel o amgylch y lle yn broblem fawr iawn / gweddol fawr"** (51% o ymatebwyr)

**"Mae eich Rhingyll Plismona Bro yn cysylltu gyda chydweithwyr yn y Cyngor ynghylch y mater hwn, ac mae eich Cadetiaid Heddlu lleol yn codi sbwriel yn yr ardal."**

**"Mae goryrru yn broblem fawr iawn / gweddol fawr"** (37% o ymatebwyr)

**"Mae ein partneriaid Gan Bwyll wedi dadansoddi'r lleoliadau a nodwyd gan ymatebwyr. Byddant yn asesu'r sefyllfa ac yn targedu mesur cyflymder a gorfodaeth yn unol â hynny."**

**"Rydyn ni'n poeni am oryrru y tu allan i Ysgol Treowen."**

**"Mae Gan Bwyll yn gorfodi cyfyngiadau cyflymder y tu allan i'r ysgol ac yn gweithio gyda'r ysgol i addysgu disgyblion ynghylch diogelwch y ffordd."**

**"Mae parcio yn broblem fawr iawn / gweddol fawr"** (37% o ymatebwyr)

**Nododd nifer ohonoch fod parcio yn broblem fawr iawn neu weddol fawr, ond drwy'r arolwg nid oeddech yn gallu darparu manylion penodol ynghylch problemau parcio penodol.**

**Mae ein parterniaid yng Nghyngor Sir Powys wedi ein cynghori y gallwch adrodd am broblem parcio penodol yn uniongyrchol iddyn nhw ar: https://cy.powys.gov.uk/article/4660/Rhoi-gwybod-am-broblem-parcio. Cofiwch fod angen adrodd am unrhyw achosion o achosi rhwystr (gan gynnwys parcio ar y pafin) neu barcio mewn man peryglus i Heddlu Dyfed-Powys, nid y Cyngor.**

Heddlu Police DYFED-POWYS | Powys | GanBwyll GoSafe

# Fy Swyddfa

Lleolir fy Swyddfa ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys yng Nghaerfyrddin. Mae gennyf nifer fechan o staff sy'n gweithio ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys hefyd.

Mae fy nhîm yn cynnwys unigolion ymroddedig a phroffesiynol sydd â rolau amrywiol iawn: o gyllid a chyllidebu i gydlynu cynlluniau gwirfoddolwyr; o gydymffurfio â dyletswyddau statudol i gomisiynu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd; ac o ymgysylltu â'r cyhoedd i reoli ystadau'r heddlu. Cliciwch yma er mwyn gweld strwythur fy swyddfa.

Yn ogystal â'm tîm craidd, mae gennyf gyfleoedd hefyd i bobl leol gael profiad gwaith. Mae prentisiaid a myfyrwyr interniaeth yn ychwanegu gwerth, yn ein helpu i ddatblygu gweithlu medrus ar gyfer y dyfodol, yn cynyddu teyrngarwch a chadw staff, yn newid rhagolygon gwaith ac yn agor llwybrau newydd ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr. Ymgymerodd tri unigolyn â lleoliadau myfyrwyr gyda ni yn ystod haf 2019, ac roeddent i gyd yn astudio yn y brifysgol ar y pryd. Daeth Cerys Morgan, Cerys Rees a Steffan Chambers yn rhan o'n tîm, gan ein cynorthwyo'n fawr â'n gwaith dros yr haf. Aethant i sioeau a digwyddiadau'r haf gyda fy nhîm ymgysylltu gan gynorthwyo wrth gasglu barn y cyhoedd i lywio ein rhaglen graffu.




Tudalen 36

## Tryloywder

Ym mis Mawrth 2020, am yr ail flwyddyn yn olynol, derbyniodd fy Swyddfa'r Marc Ansawdd Tryloywder: arwydd o safonau uchel mewn perthynas â thryloywder strwythurau llywodraethu a chyhoeddi gwybodaeth.

Mae CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu), arbenigwyr llywodraethu'r heddlu, yn adolygu gallu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i fodloni eu cyfrifoldebau tryloywder statudol. Ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2019, aseswyd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gan "siopwr dirgel" a adolygodd ein gwefannau er mwyn pennu sut yr ydym yn cyflawni ein dyletswyddau statudol ar gyfer tryloywder fel yr amlinellir yng Ngorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011.

Fel un o 28 SCHTh i dderbyn y wobr, mae fy Swyddfa wedi profi ein bod yn darparu gwybodaeth glir, gyson ac amserol; gan arddangos ein hymrwymiad i dryloywder. Fel rhan o hyn, rydym yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys ein hymatebion i geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) ar y log datgeliadau ar fy ngwefan.

## Safonau'r Gymraeg

Mae fy Swyddfa'n parhau i weithio'n agos gyda Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau y glynir wrth Fesur y Gymraeg 2011. Mae cynrychiolydd o'm Swyddfa yn mynychu cyfarfodydd chwarterol yr Heddlu "Yr Iaith Ar Waith" er mwyn deall lefelau cydymffurfiaeth yr Heddlu a gweithio gyda'n gilydd ar ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

Mae pob un o'm swyddi gwag yn datgan bod y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol o leiaf, gyda phob aelod newydd o staff yn derbyn sesiwn ymwybyddiaeth ar Safonau'r Gymraeg a sut y mae angen eu gweithredu, fel rhan o'u proses ymsefydlu.




Rydym yn falch o gofleidio ysbryd y Safonau a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig i bobl Dyfed-Powys ddefnyddio eu dewis iaith pan fyddant yn ymgysylltu â ni. Mae'r holl staff sy'n ymwneud â'r cyhoedd yn y swyddfa yn siaradwyr Cymraeg er mwyn i'r cyhoedd deimlo'n hyderus bod ganddynt yr opsiwn i ymgysylltu â ni yn eu dewis iaith. Ar hyn o bryd, mae 41% o'r tîm yn hyderus yn siarad Cymraeg.

Ym mis Tachwedd 2019, cymerodd pum aelod o'm tîm ran mewn hyfforddiant ar gyfer adeiladu ar eu sgiliau presennol o ran ysgrifennu Cymraeg a chynyddu eu hyder o ran paratoi e-byst, postio negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, ac ysgrifennu llythyrau ac adroddiadau. Cafodd y cwrs dderbyniad da gan y cyfranogwyr ac mae fy Swyddfa yn ceisio sicrhau'n gyson bod y cyfleoedd hyn ar gael i'r holl staff.

Rydym yn cefnogi'r Safonau a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig yng Nghymru, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cynwysoldeb iaith yn rhan o fusnes o ddydd i ddydd y tîm.



# Llywodraethu a Chraffu

Mae'n bwysig iawn bod gennyf berthynas waith effeithiol gyda'r Grŵp Prif Swyddogion; un o gymorth a chydweithrediad, ond hefyd, yn bwysig, un lle mae craffu ac atebolrwydd yn chwarae rôl hanfodol.

Mae trefniadau llywodraethu wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau atebolrwydd priodol ac er mwyn cynorthwyo arweinyddiaeth effeithiol. Creodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddwy "gorfforaeth undyn" o fewn pob ardal heddlu: Y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae gan y ddau ohonom rolau ar wahân a nodir mewn statud. Er fy mod i'n pennu cyllideb bob blwyddyn, gan gynnwys praesept y Dreth Gyngor, gwneir hyn mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am reoli, cyfarwyddo a darparu plismona gweithredol.

Drwy'r Bwrdd Plismona, a gynhelir bob tair wythnos, a'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona, a gynhelir bob chwarter, rwy'n dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad yr Heddlu. Mae arbenigwyr cyllid a pholisi o'm Swyddfa a'r Heddlu'n mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Plismona, ac mae blaenraglen waith yn sicrhau bod cyfarfodydd yn effeithiol a phenodol. Mabwysiadir dull sy'n dilyn thema, ac mae pob cyfarfod yn canolbwyntio ar faes busnes penodol, sy'n cael ei nodi a'i flaenoriaethu yn seiliedig ar alw gweithredol, effaith ar y gymuned a risg. Mae cofnodion y Bwrdd Plismona i'w gweld ar fy ngwefan.

Mae Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, sy'n gyfarfod cyhoeddus, yn un fforwm sy'n galluogi'r cyhoedd i weld sut rwy'n dal y Prif Gwnstabl i gyfrif. Cynhelir Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu bob chwarter, ac ystyrir themâu a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd Bwrdd Plismona a gynhaliwyd yn ystod y tri mis cyn hynny.

Yn 2019/2020, parheais â'm hymrwymiad i sicrhau bod gan bobl ar draws yr ardal Heddlu fynediad ataf i a'm Swyddfa drwy gynnal Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mhob un o'r pedair sir.

Mae Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn Llandrindod ym mis Mai 2019 yn sefyll yn y cof gan mai dyna lle y cynhaliais i a'r Prif Gwnstabl ein sesiwn ymgysylltu fyw gyntaf ar Facebook ar gyfer y rhai nad oeddynt yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Er mwyn gwella hygyrchedd ar gyfer y cyhoedd, gwnaethom








ateb eu cwestiynau'n fyw ar Facebook. Mae'r dull hwn bellach yn nodwedd reolaidd o'n hymgysylltiad â'r cyhoedd.

Rwyf hefyd yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'm meysydd cyfrifoldeb statudol. Gellir gweld y penderfyniadau pwysig a wnaed ar fy ngwefan.

## Gweithgarwch Craffu gan fy Swyddfa

Mae fy Swyddfa'n parhau i ddatblygu a defnyddio fframwaith craffu, lle mae rhwydwaith o wirfoddolwyr, partneriaid, aelodau o'm staff ac aelodau o'r cyhoedd yn cydweithio er mwyn gwneud gwaith craffu cymesur, amserol a thestunol.

### Ffeithiau am y Fframwaith Craffu

Drwy gydol 2019/20, gan ddefnyddio'r fframwaith craffu, mae fy nhîm wedi hwyluso **15 adolygiad** gan ddefnyddio **5 dull gwahanol** oedd yn ymdrin â **9 phwnc**.

Mae fy nhîm wedi nodi **78 arsylwad**, a **derbyniwyd 75 ohonynt**, roedd **20 yn arsylwadau ailadroddol**, ac mae **17 wedi'u gweithredu** hyd yn hyn.

Lluniwyd y fframwaith hwn er mwyn cynnig amrediad eang o ddulliau, o adolygiadau "ciplun" cyflym i adolygiadau thematig manwl; adolygiad 'Craffu Dwys'. Mae'r math hwn o adolygiad yn defnyddio amryw o ddulliau ymchwilio, ymgynghori a dadansoddi, wrth i'm staff gydweithio er mwyn craffu ar thema blismona benodol. Maent yn ystyried arferion gorau cyfredol o fewn a'r tu allan i blismona, perfformiad cyfredol Heddlu Dyfed-Powys, barn y cyhoedd a'r gweithlu, yn ogystal â datblygiadau cenedlaethol. Mae hyn yn rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnaf er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ar berfformiad y gwasanaeth heddlu.

Yn dilyn fy adolygiad 'Craffu Dwys' cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018, mae fy Swyddfa wedi parhau i ganolbwyntio ar faterion sy'n bwysig i'r cyhoedd. Yn 2019/20, cyflawnodd fy Swyddfa dri adolygiad manwl arall: Dull Heddlu Dyfed-Powys o fynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon (Ebrill 2019), Cyswllt Cyntaf y Cyhoedd â Heddlu Dyfed-Powys (Hydref 2019) a Dioddefwyr yn Tynnu'n Ôl (Rhagfyr 2019). Gallwch ddarllen mwy am yr adolygiadau hyn ar fy ngwefan; beth wnaethom ni a pham, ein canfyddiadau a'n hargymhellion, ac, yn allweddol, beth sydd wedi newid o ganlyniad i'r adolygiadau hyn.

## Adroddiadau Craffu Dwys – Argymhellion

### Mynd i'r Afael â Chyffuriau Anghyfreithlon

**3 brif argymhelliad (o 9):**

1. Ymgysylltu â phartneriaid yn gynnar yn y cam cynllunio wrth gyflwyno ymgyrchoedd ar gyfer tarfu ar weithgarwch cyffuriau.
2. Sefydlu protocol gweithio cyson rhwng Heddlu Dyfed-Powys a darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.
3. Gweithredu'r cynllun braenaru ledled ardal Dyfed-Powys.

### Cyswllt Cyntaf y Cyhoedd

**3 brif argymhelliad (o 14):**

1. Mae angen Strategaeth Rheoli Cyswllt clir sy'n egluro sut y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn croesawu newid mewn cyswllt digidol yn y dyfodol, a'i fod yn addas ar gyfer cymunedau Dyfed-Powys.
2. Bod Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu'r ymgyrch #maketherightcall ymhellach i roi mwy o eglurder i'r cyhoedd ynghylch sut/pam y dylent gysylltu â'r heddlu.
3. Mae angen cynnal Archwiliad Hygyrchedd llawn ledled ardal yr heddlu.

### Dioddefwyr yn Tynnu'n ôl

**3 brif argymhelliad (o 10):**

1. Ystyried adnodd canolog ar gyfer gweithredu a sicrhau ansawdd canlyniadau trosedd.
2. Darparu eglurder ar y data a gynhyrchir, gan gynnwys sut y gellir ei ddefnyddio a'i rannu.
3. Sicrhau bod y llwybr cymorth ar gyfer dioddefwyr yn glir, gan gael caniatâd adeg y pwynt cyswllt cyntaf.

Gofynnir i Heddlu Dyfed-Powys roi manylion am y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â phob argymhelliad sydd yn ei dro yn cael ei adrodd i Banel yr Heddlu a Throseddu.

## Astudiaeth Achos Gwaith Craffu

Yn dilyn tystiolaeth gynyddol o archwiliadau AHGTAEM ac adolygiadau mewnol, gwnaed cam-drin domestig yn brif flaenoriaeth gan y Prif Gwnstabl ar gyfer gwella gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ysbryd fy ymagwedd "craffu cefnogol", defnyddiodd fy swyddfa'r amrediad llawn o ddulliau craffu i ganolbwyntio ar agweddau amrywiol o'r ffordd y mae Heddlu Dyfed-Powys yn rheoli digwyddiadau domestig.

Adolygodd fy Mhanel Craffu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol, 13 achos cam-drin domestig a oedd wedi'u trin tu allan i weithdrefnau llys. Canfuant fod chwech wedi'u trin yn briodol ac roedd ganddynt rai amheuon am dri o'r achosion. Ystyriwyd bod pedwar achos wedi'u cwblhau'n amhriodol, naill ai oherwydd euogfarnau blaenorol y rhai dan amheuaeth, a awgrymai nad oedd gwarediad tu allan i'r llys yn ddigon i newid ei ymddygiad, neu oherwydd bod y gwarediad a gyflwynwyd yn anghyson â'r polisi.

Adolygodd fy Mhanel Sicrhau Ansawdd, sy'n cynnwys 15 gwirfoddolwr o bob rhan o ardal Dyfed-Powys, dair galwad 999 ac un alwad 101 am gymorth gyda digwyddiadau domestig. Daethant i'r casgliad bod y trinwyr galwadau'n dangos empathi yn gyffredinol a'u bod wedi rhoi tawelwch meddwl a chyngor diogelu i alwyr, ond nodwyd fod angen gwelliannau o ran cyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth, yn ogystal â rhoi amserlen i'r galwyr o bryd y gellid disgwyl cyswllt pellach gan swyddogion (pan roddir ymateb "trefnedig" blaenoriaeth is).

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, edrychodd y Panel Sicrhau Ansawdd ar achosion domestig o ongl wahanol, gan ystyried sut yr oedd dioddefwyr wedi cael cefnogaeth a chysylltiad yn ystod eu hachos. Ar y cyfan, ystyriodd y Panel fod dioddefwyr wedi cael cefnogaeth dda a bod camau rhesymol wedi'u cymryd i ymchwilio i'r holl droseddau a adolygwyd. Roedd tystiolaeth dda ym mhob achos o oruchwylwyr yn adolygu ac yn cefnogi penderfyniadau swyddogion. Roedd gwasanaethau cymorth wedi'u cynnig i 10 o'r 14 dioddefydd. Ystyriodd y Panel y dylid fod wedi cynnig cytundebau cyswllt a gwasanaethau cymorth ym mhob achos.

Yn olaf, cyfunwyd gwybodaeth o'r tri ymarfer â grwpiau ffocws gyda 28 goroeswr cam-drin domestig, cyfweliadau gyda chynrychiolwyr gwasanaethau cymorth, gwybodaeth o arolygon bodlonrwydd dioddefwyr yr heddlu, a chysgodi Desg Fregusrwydd newydd yr Heddlu er mwyn cynhyrchu mewnwelediadau i ymateb cychwynnol yr heddlu i gam-drin domestig yn ardal Dyfed-Powys.

Sefydlodd Heddlu Dyfed-Powys y Ddesg Fregusrwydd yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu ar 1 Ebrill 2019. Ei phrif nodau oedd gwella cofnodi troseddau; cwblhau asesiadau risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu (DASH) a sicrhau bod mwy o wybodaeth fanwl gan swyddogion wrth fynd i leoliadau digwyddiadau domestig.

Drwy'r uchod, dyma a ganfûm:

1) bod cyflwyno'r Ddesg Fregusrwydd wedi sicrhau manteision gweithredol eglur yr oedd eu gwir angen;
2) nad yw'r newid hwn mewn proses wedi cael effaith uniongyrchol amlwg ar brofiadau'r dioddefwyr; ac
3) ei bod yn ymddangos bod profiad y dioddefydd dal yn dibynnu'n fawr ar ragweithgarwch a sensitifrwydd y swyddogion sy'n ymateb i'r galwadau am gymorth.

Roeddwn o'r farn bod angen gwaith pellach er mwyn sicrhau bod pob dioddefydd cam-drin domestig yn derbyn gwasanaeth sy'n gyson dda, yn unol â'r Cod Dioddefwyr, ac yn hollbwysig, yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau unigol.

Mae canlyniadau'r adolygiadau hyn yn rhoi tystiolaeth bellach i mi fwydo i mewn i'r gwaith prosiect dioddefwyr, a fydd yn ganolog yn ystod 2020/21. Mae'n dda gen i weld gwelliannau sylweddol yn barod yn y ffordd y mae troseddau'n cael eu cofnodi a'r ffordd y mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi. Rwyf wedi fy nghalonogi gan ymateb yr Heddlu i'm swyddfa'n ymgymryd â'r gwaith hwn, ac rwy'n diolch i bawb sydd wedi cyfrannu'n onest a thrylwyr i'r adolygiadau. Edrychaf ymlaen at ddilyn eu cynnydd yn ystod y flwyddyn i ddod. Bydd fy Swyddfa'n parhau i hyrwyddo amryw o ffyrdd y gall dioddefwyr rannu eu profiad a rhoi adborth o ran sut y gellid gwella gwasanaethau. Byddwn yn annog unrhyw un sydd wedi defnyddio ein gwasanaethau i fanteisio ar y cyfleoedd hyn i'n helpu i lunio darpariaeth yn y dyfodol.

## Paneli Craffu

Yn yr Astudiaeth Achos Craffu uchod, cyfeiriaf at y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys a'm Panel Sicrhau Ansawdd. Mae'r ddau banel hwn yn allweddol yn y rhaglen o weithgarwch craffu a gyflawnir gan fy Swyddfa.

Mae fy Mhanel Sicrhau Ansawdd yn cynnwys 15 gwirfoddolwr ymroddedig. Maent yn byw yn yr ardal Heddlu ac yn cyfarfod bob yn ail fis er mwyn adolygu cysylltiad yr heddlu â'r cyhoedd, gan gynnwys achosion stopio a chwilio, digwyddiadau lle y defnyddiwyd grym, trin galwadau (101 a 999), a thrin cwynion. Maent yn cynnig mewnwelediad unigryw o safbwynt person lleyg ac mae eu gwaith wedi helpu i gefnogi gwelliannau o fewn yr Heddlu. Mae holl adroddiadau'r Panel ar gael i'w darllen ar fy ngwefan.

Mae fy Swyddfa'n cydlynu'r Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys, sy'n dod â chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyfiawnder troseddol, gan gynnwys Llysoedd, Timoedd Troseddau Ieuenctid a Gwasanaeth Erlyn y Goron, at ei gilydd. Mae aelodau'r Panel yn asesu'r defnydd o warediadau y tu allan i'r llys (megis rhybuddion, datrysiadau cymunedol a gwarediadau adferol ieuenctid) gan Heddlu Dyfed-Powys, yn craffu arnynt, ac yn sicrhau eu hansawdd. Gallant gyflwyno argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfleu canfyddiadau, hyrwyddo arferion gorau a nodi anghenion hyfforddi neu ddatblygiadau polisi posibl i'w hystyried gan yr Heddlu neu asiantaethau eraill.

## Cwynion

Ffordd arall rwy'n craffu ar waith y Prif Gwnstabl yw drwy ddelio â chwynion ffurfiol y cyhoedd yn erbyn yr unigolyn sy'n dal y swydd. Mae'n un o'm prif gyfrifoldebau statudol.

Yn ystod 2019/20, derbyniodd fy Swyddfa i gyfanswm o 13 o gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl. Unwaith y derbynnir cwyn, rhaid i mi benderfynu a ddylid cofnodi'r gŵyn (yn unol â'r gofynion deddfwriaethol) ac os felly, sut i fynd i'r afael â hi.

O'r 13 o gwynion, cafodd 5 eu cofnodi'n ffurfiol ac arweiniodd 8 at benderfyniad i beidio â chofnodi.

Arweiniodd pob un o'r 5 cwyn a gofnodwyd yn ffurfiol at ganlyniad 'datrysiad lleol'. Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yw'r corff sy'n ymwneud â'r holl gwynion am y Prif Gwnstabl a dderbynnir gan fy Swyddfa. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cafodd yr IOPC gyfanswm o 2 apêl, gyda'r IOPC yn cynnal fy mhenderfyniadau yn y ddau achos.

### Niferoedd y Cwynion

| | |
|---|---|
| Nifer y cwynion ffurfiol yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl: | 13 |
| Nifer y cwynion a gofnodwyd yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl: | 5 |
| Nifer yr apeliadau yn erbyn fy mhenderfyniad (i'r IOPC): | 2 |
| Nifer yr apeliadau a gadarnhawyd o blaid fy mhenderfyniad: | 2 |
| Cyfanswm y pryderon cymunedol a dderbyniwyd: | 195 |
| % yr achosion caeedig a ddatryswyd o fewn 30 diwrnod gwaith: | 98.41% |

O fewn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ymrwymais i ddarparu ymateb proffesiynol i gwynion (a chanmoliaeth) sy'n hygyrch, yn dryloyw ac yn darparu ymatebion cyflym a chymesur. Yn ogystal ag ystyried cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl, ystyriaf hefyd anfodlonrwydd a fynegir gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch materion amrywiol y maent wedi dod ar eu traws yn ein hardal Heddlu; cyfeirir at y rhain fel Pryderon Cymunedol. Cofnodir pryderon cymunedol mewn tri phrif gategori: 'Pryderon Personol' fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, pryderon traffig neu gam-drin domestig; 'Pryderon Sefydliadol' megis anfodlonrwydd gyda'r TCC, cyllid/cyllidebau neu arestio; a 'Phryderon Eraill' megis pryderon lleol/cenedlaethol neu bryderon nad ydynt yn ymwneud â phlismona.

Bob chwarter, ystyrir y data ar gyfer unrhyw gynnydd mewn cwynion neu nifer cyson uchel o gwynion mewn maes penodol o blismona, a rhoddir ystyriaeth wedyn i unrhyw waith pellach y gallai fod angen ei wneud er mwyn mynd i'r afael â phryderon ailadroddus. Gall hyn gynnwys hapsamplu a chyfeirio at y Panel Sicrwydd Ansawdd ar gyfer dadansoddiad annibynnol neu gymharu data lefel uchaf gyda heddluoedd tebyg eraill ac ati.

## Diwygio Cwynion

Yn 2019, dywedais wrthych am ddiwygiadau mawr i ddod o fewn system gwyno'r heddlu yng Nghymru a Lloegr. Golyga'r newidiadau hyn y bydd gennyf rôl fwy i'w chwarae yn awr, fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mewn cynyddu annibyniaeth, gwella'r broses trin cwynion, a dal y Prif Gwnstabl i gyfrif yn y maes cwynion.

Ar 10 Ionawr 2020, cyflwynodd y Swyddfa Gartref ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r ffordd y mae cwynion yn erbyn yr heddlu'n cael

eu trin, a gwella'r system ddisgyblu ar gyfer swyddogion. Mae'r newidiadau, a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2020, yn sicrhau y gellir ymdrin â chwynion yn gyflym, yn effeithiol ac yn gymesur, er budd yr heddlu yn ogystal â'r cyhoedd.

O 1 Chwefror 2020, os yw'ch cwyn wedi'i chofnodi o dan Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 ac rydych chi'n anhapus â chanlyniad eich cwyn, yna gallwch gyflwyno cais am adolygiad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw canlyniad eich cwyn yn rhesymol ac yn gymesur.

Yn bwysig, mae'r diwygiadau'n ceisio gwneud y system ddisgyblu'n fwy cymesur ac annog llawer mwy o bwyslais ar ddysgu o gamgymeriadau.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi gweithio'n agos â Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cymdeithasau staff ac eraill er mwyn datblygu pecyn cynhwysfawr o welliannau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mwy o rôl ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu er mwyn cryfhau annibyniaeth;
- Mesurau pellach er mwyn cynyddu effeithiolrwydd ac annibyniaeth Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu o ran ymchwilio i bob mater difrifol a sensitif sy'n ymwneud â'r heddlu;
- Canolbwyntio'r system ddisgyblu ffurfiol ar achosion o dorri safonau proffesiynol a fyddai'n arwain at gamau disgyblu ffurfiol, gan alluogi rheolwyr llinell i ganolbwyntio ar wella ymddygiadau a dysgu unigol mewn ymateb i faterion ymddygiad lefel is - yn seiliedig ar Broses Adolygu Arfer Myfyriol newydd;
- Darpariaethau newydd er mwyn gwella effeithlonrwydd a thryloywder ymchwiliadau camymddwyn; a
- Chynyddu tryloywder apeliadau yn erbyn canfyddiadau camymddwyn, drwy newid yr aelod panel sy'n swyddog heddlu wedi ymddeol am berson lleyg annibynnol a chyflwyno darpariaethau newydd er mwyn gwella amseroldeb ac effeithlonrwydd gweithdrefnau.

Mae staff o fewn fy Swyddfa wedi parhau i ymgymryd â hyfforddiant a mynd i sesiynau mewnbwn er mwyn cefnogi gweithredu'r diwygiadau hyn.

## Hapsamplu – 'Amseroldeb a Chyfathrebu â'r Achwynydd'

Cynhaliwyd gwaith hapsamplu gan fy Swyddfa ym mis Tachwedd 2019 yng nghyswllt 'Amseroldeb a Chyfathrebu â'r Achwynydd'. Amlinellir y pwyntiau allweddol a nodwyd yn ystod y broses hapsamplu isod:

Adolygwyd cyfanswm o wyth (8) achos – cofnodwyd pob un o fewn 10 diwrnod gwaith. Mae hwn yn faes a nodwyd yn flaenorol fel un sydd angen ei wella ac mae'r Adran Safonau Proffesiynol (ASP) wedi rhoi nifer o fesurau ar waith er mwyn gwella perfformiad, fel yr adlewyrchir yn ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC).

Mewn un (1) achos, nodwyd ei fod wedi cymryd dros 50 (50) o ddyddiau i gyfarfod â'r achwynydd. Ar ôl codi'r pryder hwn gyda'r ASP, nodwyd bod cyswllt wedi'i wneud cyn y cyfarfod cofnodedig cyntaf rhwng yr ASP a'r achwynydd. Ymddengys mai cofnod anghyflawn o'r cyswllt oedd y broblem yn yr achos penodol hwn. Mae hyn wedi nodi maes posibl o wendid, lle y mae'r ASP yn diweddaru cwynion yn briodol, ond heb roi tystiolaeth o hynny. Bydd yr ASP yn adolygu'r broses ar gyfer dogfennu cyswllt er mwyn sicrhau ei bod yn ddigon cadarn.

## Adolygiad y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys

Adolygodd yr Aelodau Panel nifer o Warediadau y Tu Allan i'r Llys a roddwyd i bobl ifanc am droseddau meddu ar gyllell.

Daethant i'r casgliad fod anghysondebau o ran gweithredu polisïau rhwng y Swyddfeydd Ieuenctid yn Nyfed a Phowys.

Codais y mater hwn gyda'r Prif Gwnstabl, ac rwy'n fodlon bod camau gweithredu wedi'u cymryd yn syth wrth i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol rhanbarthol gytuno ar bolisi diwygiedig.

Cymeradwywyd hyn yn genedlaethol hefyd, sy'n sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu trin fel troseddwyr yn ddiangen. Mae anghenion ac amgylchiadau unigol wrth galon penderfyniadau er mwyn sicrhau fod pobl ifanc yn cael eu cefnogi i newid eu hymddygiad troseddol cyn iddo waethygu.

# Gweithio gyda'n Gilydd

## Llywodraeth Cymru

Fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal heddlu ddaearyddol fwyaf yng Nghymru, mae'n hanfodol fy mod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru. Drwy gydol pandemig COVID-19, rwyf wedi cwrdd â'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Prif Chwip bob wythnos ac wedi cael diweddariadau rheolaidd gan Bennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu yn Llywodraeth Cymru, i drafod yr ymateb ar y cyd ledled Cymru a gwaith Llywodraeth Cymru wrth ymateb i'r argyfwng.

Rwyf hefyd yn eistedd ar Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, lle caiff materion penodol eu hystyried gan holl Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid Cymru, ynghyd ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, ym mis Medi 2019, canolbwyntiodd y Bwrdd ar 'bobl ifanc'; sut y mae gwasanaeth yr heddlu a phartneriaid yn ymateb ac yn delio â phobl ifanc sy'n ymwneud â gwasanaethau plismona lleol.

Yn ogystal â fforymau Llywodraeth Cymru a nodir uchod, mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn ystyried cwestiynau ynghylch sut y mae plismona'n gweithredu o fewn agweddau datganoledig gwasanaethau cyhoeddus Cymru, ynghyd â'r rhai sydd heb eu datganoli, yn ogystal â'r materion sy'n wynebu'r gwasanaeth yng Nghymru a'r ffordd orau o ymgysylltu â Senedd Cymru ar heriau sy'n gysylltiedig â phlismona. Yn ystod 2019/2020, darperais y wybodaeth ddiweddaraf am waith yn ardal Dyfed-Powys, a thynnais sylw at faterion fel pwysigrwydd gwaith partneriaeth rhwng gwasanaeth yr heddlu ac asiantaethau eraill mewn perthynas â llinellau cyffuriau, ymyrraeth gynnar a gwaith ieuenctid.

Mae Uned Gyswllt yr Heddlu yn darparu cyswllt strategol rhwng holl Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru, Heddluoedd Cymru a Llywodraeth Cymru; mae'n hyrwyddo gwaith partneriaeth rhwng yr heddlu ac asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ledled Cymru, ac yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth a pholisïau sy'n effeithio ar blismona yng Nghymru. Fel Cadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan, mae'n hanfodol bod gennyf berthynas waith gref gyda'r Uned, ac yn ystod 2019/2020, dechreuodd Pennaeth yr Uned, Paul Morris a minnau ar ein cyfarfodydd bob pythefnos ar gyfer rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae Paul hefyd wedi darparu mewnbwn i fy nhîm ar sut y gall fy Swyddfa a'r Uned weithio'n agosach gyda'n gilydd.

## Plismona yng Nghymru

Rwyf wedi cael y fraint o gadeirio'r grŵp hwn (Grŵp Plismona Cymru Gyfan gynt) ers mis Mai 2019, a byddaf yn parhau fel Cadeirydd tan fis Gorffennaf 2020 pan fydd Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru yn ymgymryd â'r swydd.

Mae Plismona yng Nghymru yn gyfarfod chwarterol rhwng y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r pedwar Prif Gwnstabl yng Nghymru. Rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mawrth 2020, rydym wedi cyfarfod ar bedwar achlysur; gan roi cyfle i ni adolygu gwaith Cydweithredu yng Nghymru, prosiectau ac ymrwymiadau ariannol, ymgysylltu â sefydliadau eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd ac eraill, a materion perthnasol eraill.

## Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM)

Yn ystod 2018/19 Heddlu Dyfed-Powys oedd un o'r ardaloedd Heddlu cyntaf i dderbyn archwiliad o dan y drefn asesu PEEL (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a

Tudalen 43

Chyfreithlondeb yr Heddlu) Integredig newydd.

Yn ystod haf 2019, mynegais bryderon am y fethodoleg a fabwysiadwyd a sut yr oedd yr Arolygiaeth yn cyrraedd barn gyffredinol. Roeddwn yn hyderus bryd hynny, ac rwy'n dal yn hyderus, bod Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â rhai o'r diffygion a nodwyd o'r blaen. Hefyd, nid oes tystiolaeth i awgrymu bod y cyhoedd a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys yn credu bod yr Heddlu'n eu trin yn annheg neu'n afresymol. Mae fy ngweithgarwch craffu yn dal i ganfod enghreifftiau lle mae swyddogion yn mynd yr ail filltir er mwyn sicrhau bod holl aelodau'r gymdeithas yn derbyn triniaeth urddasol a chymesur pan maen nhw'n dod i gysylltiad â'r heddlu.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi rhoi ffocws amlwg ar ymateb i Gam-drin Domestig yn ystod blwyddyn 2019/20, gan gynnwys cyflwyno "Desg Fregusrwydd" yn gyflym yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu a chyflwyno hyfforddiant ar faterion cam-drin domestig i bob swyddog ac aelod staff rheng flaen, ac mae wedi cael effaith amlwg. Mae'r Heddlu wedi adrodd am welliannau sylweddol mewn cydymffurfiaeth ag asesiadau risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu (DASH) ers y newidiadau. Yn fy ymateb i'r adroddiad PEEL ar gyfer 2018/19, ymrwymais i fonitro'r datblygiadau'n agos er mwyn sicrhau bod y gwelliannau'n arwain at brofiad gwell ar gyfer dioddefwyr.

## Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae fy Nghyd-bwyllgor Archwilio â'r Prif Gwnstabl yn gwirio rheolaethau busnes, gweithgarwch ariannol a threfniadau gwrth-dwyll a llygredigaeth Heddlu Dyfed-Powys a'm Swyddfa, ac yn sicrhau bod y ddau sefydliad yn lliniaru risgiau allweddol.

Gall y gwaith craffu a wneir gan Banel yr Heddlu a Throseddu lywio ei ddyfarniadau. Yr aelodau yw Malcolm MacDonald (Cadeirydd), Martin Evans, Andre Morgan, Alasdair Kenwright a Kate Curran.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler adroddiad blynyddol y Pwyllgor sydd wedi'i gyhoeddi ar fy ngwefan.

## Archwiliad Mewnol

Rwyf wedi cytuno ar gynllun archwilio gyda'n harchwilwyr mewnol, TIAA, sy'n targedu adnoddau at feysydd risg a phryder a nodwyd gan y Prif Gwnstabl a minnau. Creffir ar y Cynllun Archwilio Mewnol gan y Cyd-bwyllgor Archwilio cyn iddo gael ei gytuno, ac mae'r Pwyllgor yn ystyried canfyddiadau'r archwiliad.

Mae'r archwiliadau mewnol a adolygwyd yn ystod 2019/2020 yn cynnwys; Adolygiad o Grantiau a Lwfansau Ychwanegol, Rheoli Adnoddau Dynol – Recriwtio a Hyfforddi, Adolygiad TGCh o Gydymffurfiad GDPR ac Adolygiad o Reolaeth Risg. Mae rhagor o fanylion am weithgarwch archwilio mewnol ar gael ar fy nhudalen we ar y Cyd-bwyllgor Archwilio, yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol 2019/2020.

## Archwilio Allanol

Swyddfa Archwilio Cymru yw'r archwilwyr allanol penodedig ar fy nghyfer i a'r Prif Gwnstabl. Bob blwyddyn, maent yn rhoi sylwadau ar y 22 agwedd ariannol ar lywodraethu corfforaethol, gan gynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, systemau sefydlog ariannol, systemau rheolaeth ariannol fewnol a safonau ymddygiad ariannol, twyll a llygredd.
Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru ddyletswydd statudol hefyd i asesu'r trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Fel mynychwr gwahoddedig statudol i bob un o'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws ardal Dyfed-Powys, rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i sicrhau canlyniadau cadarnhaol, cynaliadwy i'n cymunedau.
Un o argymhellion allweddol yr asesiad o anghenion a gomisiynais ym mis Ionawr 2019 oedd i mi sicrhau bod anghenion a buddiannau dioddefwyr troseddau yn cael eu cynrychioli o fewn gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). Mae fy Swyddfa wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid BGC i sicrhau ein bod yn codi proffil dioddefwyr troseddau a phobl sy'n agored i niwed. Maent hefyd wedi gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys i sefydlu hyfforddiant atal twyll a seiberdroseddu arbenigol yn rhan o gynlluniau prosiectau cymunedol yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod gan y gweithwyr a'r gwirfoddolwyr yn ein cymunedau'r arfau i gefnogi pobl hŷn sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan dwyll.

## Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Yn ystod 2019/2020, rwyf wedi parhau i weithio'n agos gyda Rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDC), ac wedi darparu cyfleoedd ariannu ar gyfer prosiectau sy'n helpu i gyflawni blaenoriaethau fy Nghynllun Heddlu a Throseddu.

Rwyf wedi sicrhau bod £25,000 ar gael i bob un o'r pedwar Partneriaeth er mwyn iddynt ddatblygu prosiectau sy'n bodloni eu hamcanion diogelwch cymunedol eu hunain yn ogystal â'r blaenoriaethau a nodwyd o fewn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu.

Gallodd **PDC Sir Gaerfyrddin** ymgymryd â thri phrosiect drwy'r cyfle ariannu hwn, sef: (1) ymestyn ymgyrch 'Be Fearless' Llanelli i mewn i Gaerfyrddin; (2) ymgyrch amlasiantaeth sy'n cynnwys prynu deunyddiau hyrwyddo sy'n gysylltiedig â'r Ymgyrchoedd Rhuban Gwyn a 'Byw Heb Ofn', ynghyd â gweithgareddau ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr; a (3) yr ymgyrch 'Cadw golwg ar eich cymdogion' lle cydweithiodd Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu Heddlu Dyfed-Powys a Crimestoppers er mwyn annog pobl i nodi dioddefwyr seiberdroseddu a thwyll posibl yn eu cymuned leol.

Defnyddiodd **PDC Ceredigion** y cyllid ar gyfer prosiect a oedd yn canolbwyntio ar y rhai sy'n agored i niwed yn eu cymunedau lleol: datblygwyd pecynnau hyfforddi ar gyfer partneriaid, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, a llawer o fentrau eraill.

**Manteisiodd PDC Sir Benfro** ar y cyfle hwn i ymgymryd â dau brosiect ar wahân; un i amddiffyn preswylwyr sy'n agored i niwed yn well rhag sgamiau dros y ffôn, a'r llall i ddarparu cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc leol sy'n gysylltiedig ag adfywio eu hardal leol eu hunain, gan roi mwy o deimlad iddynt o berthyn a chyfraniad cymdeithasol.

Defnyddiodd **PDC Powys** y cyllid ar gyfer prosiect ymyrryd â throseddau gwledig, gan dargedu lladrata beiciau cwad yn yr ardal yn benodol. Aeth yr arian tuag at dargedu troseddwyr yn rhagweithiol yn ogystal â mentrau ataliol, megis; pecynnau DNA, peniau UV i farcio beiciau cwad ac offer, a deunyddiau marchnata.

## Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

Fe wnes i barhau i Gadeirio Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys yn 2019/2020, a oedd yn canolbwyntio ar:

1. Iechyd meddwl, gan gynnwys:

a. Gwasanaeth Brysbennu ar y Stryd yn cynnig cymorth argyfwng i'r rhai sydd mewn angen

b. Concordat Gofal Argyfwng (cytundeb cenedlaethol rhwng gwasanaethau ac asiantaethau sy'n ymwneud â gofal a chymorth i bobl mewn argyfwng)

2. Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

3. Cod Ymarfer Dioddefwyr (CYD)

Mae'r Bwrdd yn dwyn ynghyd uwch gynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol i ystyried gwella'r gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion a sut y gellir sicrhau cyfiawnder. Er enghraifft, adolygodd a thrafododd y Bwrdd achos ymosodiad rhywiol diweddar lle profodd y dioddefwr heriau sylweddol gyda'r system cyfiawnder troseddol. Roeddwn wedi cyfarfod â›r dioddefwr yn bersonol ac roeddwn am rannu ei adborth gyda chynrychiolwyr y bwrdd a thrafod dysgu ar gyfer yr holl sefydliadau a oedd wedi bod yn ymwneud â'r achos. Mae camau pellach i'w cymryd, ond mae'r adborth hwn wedi dangos gwerth prosesau presennol, fel hawl y dioddefwyr i gael adolygiad.

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys, neu os ydych yn dymuno rhannu eich profiad o'r system cyfiawnder troseddol yn yr ardal, cysylltwch â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu drwy ffonio 01267 226440 e-bost: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk neu ewch i'r wefan www.dyfedpowys-pcc.org.uk.

PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS
DYFED POWYS POLICE AND CRIME PANEL

## Y Panel Heddlu a Throseddu



Rôl Panel yr Heddlu a Throseddu yw craffu ar sut rwy'n cyflawni fy nghyfrifoldebau a'r cynnydd a wnaed yn erbyn fy mlaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Mae cyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu ar agor i'r wasg a'r cyhoedd, ac fe'u cynhelir mewn lleoliadau amrywiol ar draws yr ardal heddlu. Yn 2019/2020, fe fuais i gerbron y Panel 6 gwaith, lle yr heriwyd fy ngwaith yn gadarnhaol a thrafodwyd cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Am y tro cyntaf, ym mis Hydref 2019, cynhyrchodd fy Swyddfa adroddiad thematig ar gais y Panel. Nododd aelodau'r Panel 'Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' fel un o'r themâu allweddol yr oeddent am graffu arni yn ystod y flwyddyn.

Ers yr adroddiad thematig cyntaf hwn, mae fy Swyddfa wedi cynhyrchu adroddiadau thematig ar 'Atal Trosedd', 'Troseddau Gwledig' ac 'Ymddygiad Gwrthgymdeithasol'. Roedd y Panel wedi nodi'r themâu hyn fel blaenoriaethau yr oeddent eisiau craffu arnynt yn ystod 2019/2020. Mae'r holl adroddiadau ar gael yn nogfennau agenda'r cyfarfod ar wefan y Panel Heddlu a Throseddu.

Rwy'n croesawu'r her gan y Panel ac rwy'n ddiolchgar iddynt am eu cyfraniadau. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio'n adeiladol gyda'r Panel am weddill fy nghyfnod yn y swydd. Gallwch ddarllen mwy am waith Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn ei adroddiad blynyddol, sydd ar gael ar ei wefan.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# Gwario Arian yn Ddoeth


## Cyllideb 2019/2020

Ym mis Ionawr 2019, gosodais gyllideb refeniw net o £105.595 miliwn er mwyn darparu gwasanaethau plismona ar gyfer cymunedau ardal Dyfed-Powys yn ystod 2019/2020.

Roedd y gyllideb yma'n tybio defnydd arfaethedig o £0.981m (miliwn) o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwasanaethau o ddydd i ddydd, ynghyd ag arbedion y gellir eu troi'n arian o £2.932m i'w cyflawni ar draws nifer o fentrau gan gynnwys strwythurau'r gweithlu, trefniadau cydweithio, datblygiadau TGCh, cynhyrchu incwm a gostyngiadau sylweddol mewn gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau a ddarparwyd drwy fentrau caffael a mentrau lleihau costau eraill.

Er mwyn bodloni amrywiaeth o feichiau ariannol, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o gynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer Pensiynau'r Heddlu, roedd y gyllideb yn cynnwys hyblygrwydd praesept tybiedig y Llywodraeth o £24 ar gyfer pob eiddo Band D ychwanegol. Unwaith eto, gan ardal Dyfed-Powys oedd y praesept isaf yng Nghymru, yn ogystal â'r cynnydd isaf o ran praesept y dreth gyngor ledled Cymru a Lloegr ers 2012/13.

O ran perfformiad ariannol yn ystod y 2019/2020, er gwaethaf nifer o heriau ariannol a gweithredol, gan gynnwys y rhai sy'n codi yn sgil y pandemig COVID-19, roeddwn yn falch o sicrhau tanwariant net o £1.792m.



Cyfyngwyd cryn dipyn ar ddefnydd o arian yn ystod y flwyddyn i liniaru ar y meysydd o bwysau gweithredol a sefydliadol, a chyflawnwyd nifer o arbedion. Cafodd grantiau ychwanegol a ffrydiau incwm hefyd eu cyflawni tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r sefyllfa derfynol:

| | 2019/2020 Cyllideb Ddiwygiedig £'000 | 2019/2020 Gwirioneddol £'000 | 2019/2020 Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|
| **Y Comisiynydd** | | | |
| Costau'r Swyddfa a Chomisiynu | 1,945 | 1,873 | 62 |
| Costau Ystadau | 3,994 | 4,078 | -84 |
| **Cyfanswm y Comisiynydd** | **5,939** | **5,951** | **-12** |
| **Prif Gwnstabl** | **99,656** | **97,852** | **1,804** |
| **Sefyllfa Net** | **105,595** | **103,803** | **1,792** |

*Mae'r holl ffigurau i'w cadarnhau - gwiriwch fy ngwefan ar gyfer Datganiadau Cyfrifon archwiliedig.*

Mae'r sefyllfa alldro hon yn gadarnhaol iawn ac fe hwylusodd y broses o greu cronfa wrth gefn benodol wedi'i chlustnodi er mwyn lliniaru'n rhannol y goblygiadau ariannol disgwyliedig sy'n deillio o'r pandemig a chaniataodd ar gyfer gwneud gostyngiad yn y defnydd arfaethedig o gronfeydd refeniw wrth gefn i gefnogi cyllideb 2019/2020. Mae gwaith yn parhau o ddifrif i asesu goblygiadau ariannol y pandemig ar gyfer 2020/21 a thu hwnt yn llawn, er y gallai fod angen cryn dipyn o amser i grisialu'r sefyllfa o ran yr effaith leol ond hefyd o fewn y dirwedd economaidd ehangach.

Yn ogystal â'r gwariant refeniw hwn, gwariwyd £5.124m hefyd ar fuddsoddiad cyfalaf i sicrhau bod darpariaeth ystadau, cerbydau a thechnoleg yn gallu bodloni gofynion plismona yn ddigonol.

Ar ddiwedd 2019/2020, roedd cyfanswm o £14.575m wrth gefn, a oedd yn cynnwys cronfa wrth gefn gyffredinol o £4.032m i dalu costau digwyddiadau annisgwyl, £0.774m i gefnogi costau sylfaenol plismona, y gronfa wrth gefn newydd, sef £0.650m i liniaru'n rhannol ganlyniadau ariannol COVID-19, ynghyd â £4.96m i ariannu buddsoddiad cyfalaf hanfodol yn y dyfodol, yn bennaf ym maes ystadau a thechnoleg.

I gael rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol 2019/2020, gweler y Datganiad o Gyfrifon y Grŵp ar gyfer 2019/2020 sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r Adroddiad Naratif ar ddechrau'r Cyfrifon yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r sefyllfa ariannol, a dadansoddiad manylach o amrywiannau.

## Rhagolwg Ariannol

O ran y Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi wynebu heriau ariannol sylweddol ers 2010 oherwydd gostyngiadau mewn cyllid gan y Llywodraeth ganolog ynghyd â phwysau o ran costau a newidiadau parhaus yn y galw am wasanaethau plismona.


Ym mis Medi 2019, amlinellodd y Llywodraeth ei hymrwymiad i fynd i'r afael â throseddau a chadw pobl yn ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer 6,000 o swyddogion heddlu ychwanegol ledled Cymru a Lloegr fel rhan o ymrwymiad ehangach i recriwtio 20,000 o swyddogion ychwanegol, gyda dyraniad cychwynnol o 42 o swyddogion ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Y setliad grant ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn 2020/21 oedd £56.617m, sef £4.967m yn uwch na 2019/20. Roedd y setliad yn cynnwys cynnydd mewn cyllid craidd o £3.768m ynghyd â grant penodol wedi'i glustnodi o £1.190 miliwn i gefnogi costau recriwtio a seilwaith y swyddogion ychwanegol. Roedd y setliad hefyd yn adlewyrchu gostyngiad sylweddol yn nyraniad y grant cyfalaf o £325k i £85k.

Yn dilyn proses graffu fanwl a thrafodaethau ynglŷn â thybiaethau ariannol, risgiau sy'n parhau i fygwth cymunedau ardal Dyfed-Powys, ac ystyriaethau o ran blaenoriaethau buddsoddi cyflwynais fy nghynnig praesept ar gyfer 2020/21 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 i'r Panel Heddlu a Throseddu. Roedd y broses hon yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd, nifer o seminarau a chyflwyniadau i fy nhîm a minnau, Bwrdd Gweithredol Heddlu Dyfed-Powys, cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cyd-bwyllgor Archwilio. Pleidleisiodd Aelodau Panel yr Heddlu a Throseddu yn unfrydol o blaid cefnogi fy nghynnig ym mis Chwefror 2020.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys cynnydd tybiedig o 5% yn y praesept o flwyddyn i flwyddyn ac yn ymgorffori twf tybiedig o 2.25% mewn cyflogau a phwysau chwyddiant o 2021/22 ymlaen gan fodelu pwysau twf a chynnydd mewn costau hysbys a cholled posibl rhai grantiau penodol. Hefyd, mae wedi cynnwys y lleihad parhaus yn y cyfraniad blynyddol o gronfeydd wrth gefn a chynnydd ychwanegol mewn cyfraniadau o ran cyllid a thaliadau cyfalaf i gefnogi'r Blaenraglen Gyfalaf. Mae gwariant ychwanegol pellach ar nifer o flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ynghyd â'r costau ychwanegol sy'n deillio o newidiadau i bensiynau'r heddlu, wedi cael eu cynnwys.

Mae'r Heddlu'n parhau i nodi mesurau effeithlonrwydd ac mae ganddo gynllun lleihau costau sy'n gobeithio manteisio ar fentrau



cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gan gynnwys y Bwrdd Masnachol Cenedlaethol, Cwmni TGCh yr Heddlu a gweithgarwch cydweithio drwy Gymru gyfan. Mae'r cynllun hwn yn tybio y caiff y gweithlu a'r sylfaen costau eu had-drefnu drwy effeithlonrwydd a chynhyrchiant, ond bydd rhaid parhau i ddatblygu hyn er mwyn alluogi'r Prif Gwnstabl a minnau i bennu sefyllfa ariannol tymor canolig gytbwys wedi'i hariannu ar gyfer refeniw a chyfalaf gan warchod safon y gwasanaeth a roddir i gymunedau ardal Dyfed Powys.

O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, mae'n debygol y bydd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR) hirddisgwyliedig y Llywodraeth nawr yn debygol o gael ei gynnal yn 2021, ac mae'r arwyddion cychwynnol yn awgrymu y bydd cyllido'n cael ei dreiglo flwyddyn ar gyfer 2021/22, er bod nifer o faterion ansicr o ran sawl elfen o'r cyllid o ystyried y cyd-destun economaidd ehangach.

Mae ymyrraeth economaidd y Llywodraeth wedi bod yn helaeth ac yn ddi-os bydd gan hyn oblygiadau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus a ffrydiau cyllid grant craidd a phenodol. Yn ogystal â'r rhain mae ansicrwydd hefyd ynghylch y goblygiadau ar gyfer yr economi o ran y sylfaen drethu leol, amodau'r farchnad ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau, y gallu i fodloni arbedion effeithlonrwydd cynlluniedig, yr effaith ar brosiectau a mentrau TG cenedlaethol, ynghyd â newidiadau posibl i wasanaethau plismona'n gyffredinol. Bydd angen i mi, y Prif Gwnstabl a'n timau perthnasol ystyried y ffactorau hyn yn ofalus.


Felly, caiff y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'i gynlluniau a'i strategaethau cysylltiedig eu hailystyried gan ystyried y goblygiadau ehangach hyn, gyda ffocws penodol ar wytnwch ariannol a chynaliadwyedd, gan roi sylw llawn i'r effaith ar ddarparu gwasanaethau plismona i fodloni gofynion o ran galw a gallu er mwyn parhau i ddiogelu cymunedau ardal Dyfed-Powys.

## Y Gyllideb Gomisiynu

£1,453,587 oedd y gyllideb gomisiynu ar gyfer 2019/2020, ac ariannwyd £596,891 ohoni drwy'r Grant Dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r graff canlynol yn dangos manylion y dyraniad hwn.

Mae fy Mwrdd Cynghori ar Gomisiynu yn fy nghefnogi yn y gweithgarwch hwn drwy weithredu fel cynghorwyr mewn perthynas â dyfarnu cyllid grant neu dendro am wasanaethau. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar graffu ar weithgarwch a dwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif, gan sicrhau elw ar fy muddsoddiad.

## Cyllideb Gwasanaethau a Gomisiynwyd 2019/20



# Ystadau

Mae fy nhîm Ystadau penodedig wedi parhau i gynnal, uwchraddio a gwella tir ac adeiladau Heddlu Dyfed-Powys, yr wyf i'n gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn cwmpasu llawer o bethau, ond y prif nod o hyd yw sicrhau ystâd gost-effeithiol ac addas i'r diben.

Yn ystod 2019/2020, bu'r tîm yn gweithio ar nifer o wahanol brosiectau pwysig, a manylir ar rai ohonynt isod:

- Yn fy Adroddiad Blynyddol diwethaf, nodais bod y safle arfaethedig gwreiddiol ar gyfer datblygu'r Ddalfa newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi'i ystyried yn annichonadwy. Yn ystod 2019/2020, gweithiodd fy nhîm yn galed i ddod o hyd i safle newydd ar gyfer datblygiad Dalfa Sir Gaerfyrddin. Mae tîm o Gontractwyr wedi'i benodi ac mae'r gwaith ymchwilio ar gyfer cynllunio yn parhau hyd at yn gynnar yn 2020/2021;
- Dyfarnwyd Contract Mecanyddol, Trydanol a Glanhau newydd ar gyfer yr Ystâd, gan godi lefelau cydymffurfio statudol, parhad busnes ac ansawdd gwasanaeth ar draws yr ystâd.
- Cyflwynwyd offer Technoleg Llaw i bob Technegydd Cynnal a Chadw, gan eu galluogi i weithredu amser byw ar draws yr ystâd;
- Sefydlwyd Grŵp Gweithio Ystwyth er mwyn cyflwyno cynllun tymor byr a thymor canolig i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau ar draws yr heddlu ar gyfer y staff a'r ystâd;
- Cafodd ein Grŵp Cynaliadwyedd ei adfywio ac mae cynlluniau gwella wedi'u rhoi ar waith er mwyn cynyddu cynhyrchiant wrth leihau ôl troed carbon cyffredinol yr heddlu a'n heffaith ar yr amgylchedd; a
- Chwblhawyd y gwaith o werthu eiddo segur yn llwyddiannus (Parc y Brodyr, Caerfyrddin).

# Myfyrio ac Edrych Tua'r Dyfodol



Yn fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/2019, cyfeiriais at nifer o weithgareddau a gwaith a fyddai'n cael eu cynnal yn ystod 2019/2020. Bydd y ddogfen hon wedi cyflwyno gwybodaeth am rai ohonynt, ond hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i fyfyrio ar y darnau hynny o waith, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi, a nodi fy nghynlluniau ar gyfer 2020/2021.

## Gweithgarwch Craffu

Yn ystod 2019/2020, parhaodd fy staff i ganolbwyntio ar fy nghefnogi ymhellach wrth sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn darparu'r gwasanaethau plismona mwyaf effeithlon ac effeithiol i drigolion ardal Dyfed-Powys.

Er mwyn ymateb i argyfwng COVID-19, er mwyn parhau i gyflawni fy mlaenoriaethau, ac er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, bydd fy ffocws ar gyfer 2020/2021 ar:

1) Sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl ddigon o adnoddau er mwyn ymateb i'r argyfwng ac adfer wedi hynny ***(sircahu adnoddau)***;

2) Sicrhau, ar ran y cyhoedd, bod yr heddlu'n ymateb mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol, yn ddigonol, yn gymesur ac yn foesegol ***(dal i gyfrif)***;

3) Hwyluso gwaith partner effeithiol ymysg asiantaethau a grwpiau sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ***(gwella'r ddarpariaeth)***;

4) Comisiynu gwasanaethau, yn arbennig ar gyfer dioddefwyr trosedd, a rhoi grantia

ar gyfer dibenion plismona a lleihau trosedd ***(diogelwch cymunedol a lleihau troseddu)***; a

5) Sicrhau bod gan breswylwyr y mae Heddlu Dyfed-Powys yn eu gwasanaethu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn deall sut mae eu gwasanaeth yn perfformio ***(cyswllt lleol)***.

I gael rhagor o wybodaeth am ymateb fy Swyddfa i'r pandemig COVID-19, cliciwch yma i weld yr Adroddiad a gyflwynais i Banel yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2020.

## Gwasanaethau a Gomisiynir

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion o'r asesiad anghenion a gynhalais ar ddechrau 2019 wedi rhoi'r sylfaen i mi ar gyfer cynllun gweithredu i wella'r gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Mae hyn wedi cynnwys gweithio mewn ffyrdd gwahanol a gwell gydag asiantaethau partner er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau posibl ar y cyd, gan lobïo ar lefel Weinidogol a llywodraethol am gyllid ychwanegol a gwell gwasanaethau ar draws sbectrwm cymorth i ddioddefwyr ac archwilio ffyrdd o wella ein darpariaeth bresennol ein gwasanaeth.

Cynhaliwyd adolygiad penodol o wasanaeth Goleudy i ddioddefwyr a thystion ym mis Tachwedd 2019 ac mae hyn wedi rhoi rhagor o dystiolaeth ac argymhellion i helpu i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y ddarpariaeth i ddioddefwyr yn y dyfodol.

Mae hyn i gyd, ynghyd â chanfyddiadau'r adolygiad craffu ar ddioddefwyr yn tynnu'n ôl, yn darparu sylfaen dystiolaeth ardderchog ar gyfer gwella gwasanaethau. Yn ystod 2020/2021, byddaf yn canolbwyntio ar ddioddefwyr a bydd grŵp prosiect sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'm swyddfa i, yr Heddlu ac asiantaethau partner yn gweithio er mwyn rhoi cyfres gyfan o welliannau ar waith i'r gwasanaethau y mae dioddefwyr yn eu derbyn.

Edrychaf ymlaen at allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

## Fforwm Ieuenctid

Fel y nodwyd eisoes, ym mis Mawrth 2020, cynhaliais Gynhadledd Ieuenctid i drafod canlyniadau'r gwaith gyda Hafan Cymru. Gan edrych ymlaen at 2020/2021, byddaf yn archwilio'r canfyddiadau yn drylwyr ac yn cynnal trafodaethau manwl pellach gyda phartneriaid a phobl ifanc. Bydd y bartneriaeth newydd a ffurfiwyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd yn parhau wrth i ni geisio cydweithio'n agos er mwyn mynd i'r afael â llawer o'r canfyddiadau.

## Ymgysylltu Digidol

Wrth i ni symud i 2020/2021, rwy'n cydnabod bod COVID-19 wedi effeithio ar sut y gallaf ymgysylltu â'n cymunedau. Rhaid ystyried hyn, ond er bod ymgysylltu digidol yn ymddangos y dull mwyaf addas ar hyn o bryd, wrth symud ymlaen, mae'n bwysig nad ydym yn ynysu'r rhai hynny nad oes ganddynt fynediad at y we na fforymau digidol.

Mae fy nhîm ymgysylltu yn adolygu'r ffordd y byddaf yn cynnal fy ngweithgareddau ymgysylltu ac yn rhoi gwybodaeth a diweddariadau i drigolion ar draws ardal Dyfed-Powys. Rydym yn cymryd camau i wella ein dealltwriaeth o gymunedau fel y gallwn ymateb i'r modd y maent yn dymuno ymgysylltu, a sut y gallant wneud hynny.


## Cyllidebu Cyfranogol

Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddais fy mod yn buddsoddi mewn dull newydd o ariannu cymunedol yn sgil diweddaru'r strwythur Plismona Bro yn 2019/2020 ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Mae Cyllidebu Cyfranogol yn ffordd o roi mwy o lais i gymunedau o ran sut y caiff arian ei wario yn eu hardal leol: dylai cymunedau fod yn dylanwadu ar y penderfyniadau.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/2021, bydd pob un o'n 14 Tîm Plismona Bro yn cael £10,000 i'w wario o fewn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a'r cymunedau eu hunain fydd yn gwneud y penderfyniadau allweddol. Bydd swyddogion heddlu lleol yn gweithio'n agos gyda'u cymunedau lleol er mwyn galluogi'r cyhoedd i wneud penderfyniadau pwysig ynghylch sut y caiff arian ei wario.

Bydd fy nhîm ymgysylltu hefyd yn cymryd rhan yn y broses hon, ac rwy'n edrych ymlaen at weld sut mae'r dull newydd yn datblygu.



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER









01267 226440

opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

Comisiynydd Heddlu a
Throseddu Dyfed-Powys
SCHTh
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 2PF

## Tudalen Cysylltwch y Comisiynydd

www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-comisiynydd/cysylltwch-%C3%A2-mi/

Facebook @DPOPCC

Twitter @DPOPCC

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**24/07/20**

| **DIWEDDARIAD AR YR YMATEB I'R PANDEMIG COVID-19** |
|---|
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br>Nodi'r camau a gymerwyd gan y Comisiynydd, ei gwestiynu amdanynt a gwneud argymhellion fel y gwêl y Panel yn briodol |
| **Y rhesymau:**<br>Mae hyn yn rhan o faes gorchwyl y Panel i archwilio a chefnogi gwaith y Comisiynydd |



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn |
|---|---|---|
| Y Cyng. Alun Lloyd-Jones | Cadeirydd y Panel | 01267 224018 |
| Robert Edgecombe | Swyddog Arweiniol | Cyfeiriad e-bost: |
| | | rjedgeco@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# DYFED – POWYS POLICE AND CRIME PANEL
# 24/07/20

| UPDATE ON RESPONSE TO THE COVID-19 PANDEMIC | |
|---|---|
| On the 3rd June 2020 Panel members received a briefing from the Commissioner via Skype as to the impact of the Covid-19 pandemic on Dyfed-Powys Police and the wider functions of the Commissioner.<br><br>During that briefing the Commissioner agreed to provide an update to the Panel at its next formal meeting. | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **YES** |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**

**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| **Host Authority File** | **PACP-006** | **County Hall Carmarthen** |
| | | |
| | | |
| | | |

**Adroddiad gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Diweddariad ar yr Ymateb i Bandemig y Coronafeirws (COVID-19), Gorffennaf 2020**

| **Statws fel yr adroddwyd ar 26 Mai 2020** | **Diweddariad ar 14 Gorffennaf 2020** |
|---|---|
| **Sicrhau Adnoddau**<br>*Sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl ddigon o adnoddau i ymateb i ac adfer wedi'r argyfwng* | |
| 1. Adroddir yn genedlaethol am holl gostau ac arbedion sy'n gysylltiedig â COVID-19 i lywio trafodaethau cyllido yn y dyfodol.<br>2. Sefydlu cronfa wrth gefn COVID-19 sydd wedi'i chlustnodi.<br>3. Deialog ddyddiol gyda Phrif Swyddogion ynghylch y galw ar yr Heddlu.<br>4. Cyfarfodydd wythnosol gyda Senedd Cymru a Llywodraeth y DU.<br>5. Glanhau adeiladau'n ddwfn, ad-drefnu corfforol a darparu | 1. Fel y manylwyd yn y diweddariad ariannol i Aelodau'r Panel ym mis Mehefin, sefydlodd y Comisiynydd gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o £650k ar ddiwedd 2019/20 i gynorthwyo o ran lliniaru'n rhannol y goblygiadau ariannol tra bo'r darlun cenedlaethol ar gyllid posibl ddod yn gliriach. Ar hyn o bryd, dylid nodi bod y sefyllfa diwedd blwyddyn yn dal i fod yn destun archwiliad statudol gan Archwilio Cymru. Mae costau Ymgyrch Talla yn cael eu cofnodi a'u hadrodd i'r Swyddfa Gartref yn fisol, gyda £798k wedi cael ei wario yn ystod mis Mawrth, Ebrill a Mai.<br>2. Mae lefelau staffio'r heddlu wedi aros yn gyson trwy'r cyfnod gyda lefelau didynnu'n dal i fod â statws gwyrdd am y cyfnod. Nodir bod gwasanaethau plismona fel yr arfer, ond mae cynlluniau ar waith i ddelio ag unrhyw amrywiad. Mae lefelau troseddu a'r nifer sy'n mynd trwy'r dalfeydd yn dychwelyd i 'normal' h.y. yn debyg i'r un cyfnod y llynedd. |

| | |
|---|---|
| cyflenwadau hanfodol i gadw'r rheng flaen yn weithredol. | 3. Mae'r tîm Ystadau wedi bod yn hynod weithgar trwy gydol yr ymateb. Maen nhw:<br>a. wedi gweithio gyda phartneriaid i sicrhau diogelwch y rhai sy'n defnyddio adeiladau ar y cyd ac i ddarparu safleoedd amgen lle mae COVID-19 wedi effeithio ar wasanaethau;<br>b. wedi gweithio gyda'r tîm dalfeydd i wella'r amgylchedd er mwyn cynorthwyo ymbellhau cymdeithasol a darparu sgriniau amddiffynnol lle bernir bod angen hynny;<br>c. wedi cefnogi'r tîm adfer ac wedi gweithio i gynorthwyo i gyflenwi arwyddion COVID-19 priodol ar draws ystâd yr Heddlu yn ôl yr angen; ac<br>d. yn parhau i chwarae rhan lawn yn y gwaith o gynllunio defnydd o'r ystâd yn y dyfodol a symudiadau ar gyfer y cyfnod i ddod. |
| **Dal i Gyfrif**<br>*Sicrhau, ar ran y cyhoedd, bod yr heddlu'n ymateb mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol, yn ddigonol, yn gymesur ac yn foesegol* | |
| 1. Monitro perfformiad yr Heddlu a thueddiadau trosedd yn wythnosol.<br>2. Cyfarfodydd atebolrwydd rhithwir.<br>3. Adolygu cofnodion y ddalfa o bell yn lle ymweliadau corfforol.<br>4. Cefnogi dysgu sefydliadol yr Heddlu ac adferiad o'r argyfwng.<br>5. Parhau i ymateb i ohebiaeth a | 1. Mae'r Heddlu'n cynhyrchu crynodebau ystadegol wythnosol ac mae gan SCHTh fynediad at ddata troseddau amser byw a data Hysbysiadau Cosb Sefydlog COVID-19.<br>2. Mae'r CHTh wedi parhau i gynnal cyfarfodydd rhithwir o'r Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Atebolrwydd ac mae cynrychiolwyr SCHTh yn parhau i fynychu cyfarfodydd Ymgyrch Talla Aur ac Arian.<br>3. Mae Panel Sicrhau Ansawdd y CHTh a Phaneli Craffu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys yn eistedd o bell.<br>4. Mae adolygu cofnodion dalfeydd yn parhau, gyda thrafodaethau'n parhau ar y broses o ailgyflwyno ymweliadau â dalfeydd gam wrth gam. |

| | |
|---|---|
| chwynion gan y cyhoedd, gan fynd at y Tîm Prif Swyddogion pan fo hynny'n briodol i fynd i'r afael â materion wrth iddynt godi.<br>6. Derbyniodd ac ymatebodd SCHTh i 160 eitem unigol o ohebiaeth yn gysylltiedig â COVID-19 (sefyllfa ar 21 Mai). | 5. Derbyniodd ac ymatebodd SCHTh i 48 eitem unigol arall o ohebiaeth yn gysylltiedig â COVID-19 (22 Mai i 14 Gorffennaf).<br>6. Mae'r Heddlu wedi adrodd i'r Bwrdd Plismona ar yr ymateb a'r adferiad hyd yn hyn, ac mae aelod o staff SCHTh yn gweithio'n agos gyda thîm adfer yr Heddlu ar gynllunio ar gyfer y diwygiad tymor hir, gan gynnwys strategaeth cyswllt a hyder newydd. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi ac yn dylanwadu ar ddatblygiad Cynllun yr Heddlu a Throsedd. |
| **Gwella'r Ddarpariaeth**<br>*Hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol ymhlith asiantaethau a grwpiau sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol* | |
| 1. Cyfarfod Rhithwir y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol i drafod trefniadau ar y cyd i gadw'r system cyfiawnder troseddol yn rhedeg yn ein hardal.<br>2. Galw am gyfarfod rhyfeddol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn gynnar i ddeall yr effaith y byddai'r argyfwng yn ei gael ar ddarparu cyfiawnder cyflym.<br>3. Cyfarfodydd wythnosol gyda'r Swyddfa Gartref. | 1. Mae trefniadau rhithwir yn parhau ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, gyda'r cyfarfod ar 9 Gorffennaf yn canolbwyntio ar wybodaeth am berfformiad gan bartneriaid a chynllunio adferiad.<br>2. Mae cell adfer wedi'i sefydlu o dan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol sy'n canolbwyntio'n benodol ar faterion dioddefwyr a thystion. Trafododd y cyfarfod cyntaf ar 3 Gorffennaf ôl-groniad y llysoedd.<br>3. Darperir diweddariadau Dyfed-Powys i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ac mae'r CHTh yn parhau i ddylanwadu ar drafodaethau ar lefelau Cymru gyfan a chenedlaethol (Cymru a Lloegr).<br>4. Mae SCHTh yn cynrychioli CHTh Cymru ar fwrdd cenedlaethol sy'n trafod llywodraethu Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a Gwasanaethau Atal.<br>5. Mae SCHTh yn parhau i weithio'n agos gyda'r Heddlu ar y Prosiect Gwella Dioddefwyr, gan gynnwys adolygiad anffurfiol a chraffu ffurfiol yn y Bwrdd Plismona. |

| | |
|---|---|
| 4. Cyllid parhaus ar gyfer partneriaid diogelwch cymunedol a chynnal deialog â nhw.<br>5. Cefnogi prosiect yr Heddlu ar wella profiad y dioddefwr. | 6. Mae sianeli cyfathrebu yn parhau gydag arweinwyr Diogelwch Cymunedol er mwyn cynnal dull partneriaeth.<br>7. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dull partneriaeth i ymgysylltu â dioddefwyr trwy Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr.<br>8. Mae SCHTh yn gysylltiedig â thrafodaethau Cymru Gyfan ar ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau ar gyfer troseddwyr benywaidd.<br>9. Mae'r tîm Ymgysylltu yn sicrhau bod y CHTh yn parhau i gwrdd â darparwyr gwasanaeth a phartneriaid a gomisiynwyd yn ystod ei Ddiwrnodau Ymgysylltu Cymunedol rhithwir. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt ddwyn unrhyw faterion neu bryderon i sylw'r CHTh. |
| **Diogelwch Cymunedol a Lleihau Troseddu**<br>*Comisiynu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer dioddefwyr troseddau, a darparu grantiau at ddibenion plismona a lleihau troseddau* | |
| 1. Monitro'n wythnosol galw, gallu a risgiau gwasanaethau a gomisiynir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.<br>2. Deialog wythnosol gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.<br>3. Sicrhau cyllid gwasanaethau trwy gydol yr argyfwng.<br>4. Sicrhau prosiectau atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol y bydd cyllid yn cael ei ddwyn ymlaen.<br>5. Paratoi ar gyfer y newid disgwyliedig yn y galw am | 1. Mae deialog gyda gwasanaethau a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau, bob pythefnos wrth i'r sefyllfa ddatblygu.<br>2. Mae grŵp arweiniol dioddefwyr APCC yn cwrdd bob pythefnos i drafod materion allweddol ac uwch gyfeirio pryderon.<br>3. Sicrhawyd dros £140,000 ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin rhywiol a domestig. Mae'r SCHTh hefyd yn aros am gadarnhad terfynol o £63,000 ychwanegol ar gyfer darpariaeth cam-drin rhywiol gwledig.<br>4. Mae cyfathrebu parhaus â derbynwyr grantiau i sicrhau bod prosiectau'n parhau i gael eu cyflwyno yn y flwyddyn ariannol hon.<br>5. Mae cynllunio adferiad ar waith gyda'r holl ddarparwyr gwasanaeth, gan gynnwys lefelau amrywiol o alw cynyddol. |

| | |
|---|---|
| wasanaethau cymorth wrth i gyfyngiadau leihau. | 6. Mae'r CHTh wedi hwyluso sgwrs agored yn y Bwrdd Cynghori Comisiynu gyda darparwyr gwasanaeth ynghylch profiadau, gwersi a ddysgwyd a heriau yn ystod COVID-19. |
| **Cyswllt Lleol**<br>*Sicrhau bod gan drigolion a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall sut y mae eu gwasanaeth yn perfformio* | |
| 1. Cyfweliadau â'r wasg, datganiadau a phodlediadau yn cefnogi neges yr Heddlu i annog pobl i aros adref ac amddiffyn y Gwasanaeth Iechyd.<br>2. Lobio Gweinidogion Cymru am fynediad i brofion ar gyfer swyddogion a staff rheng flaen.<br>3. Briffiau ysgrifenedig a rhithwir ar gyfer holl Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol lleol.<br>4. Cyfarfod cyhoeddus rhithwir i breswylwyr ddweud eu dweud, i'w ailadrodd yn rheolaidd ar gyfer pob un o'n pedair sir.<br>5. Cylchlythyr yn hysbysu preswylwyr o'n hymateb i COVID-19 a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i chi. | 1. Mae Fforwm Ieuenctid y CHTh wedi parhau i gwrdd bron bob 3-4 wythnos.<br>2. Mae Diwrnodau Ymgysylltu Cymunedol Rhithwir wedi'u cynnal ar gyfer pob sir. Mae'r rhain wedi cynnwys cyfarfodydd cyhoeddus lle mae cyfranogwyr wedi gallu trafod pryderon mewn cysylltiad â COVID-19 gyda'r CHTh a'r Uwch-arolygydd gweithredol lleol.<br>3. Mae'r CHTh wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Hwb Plismona ac Ystafelloedd Dalfa newydd Sir Gaerfyrddin. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, trefnwyd cyfarfod cyhoeddus rhithwir gan yr SCHTh ac roedd cynrychiolwyr cymunedol yn bresennol ynddo.<br>4. Ailadroddwyd gwybodaeth gyhoeddus trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol SCHTh bod gwasanaethau yn dal i fod yn agored ac yn hygyrch.<br>5. Mae darparu gwybodaeth yn lleol trwy'r cyfryngau cymdeithasol ynghylch llinellau cymorth cenedlaethol a phwysigrwydd dioddefwyr yn gofyn am gefnogaeth yn dal i ddigwydd.<br>6. Cyhoeddwyd Cylchlythyr mis Gorffennaf ac mae ar gael ar wefan SCHTh, gan ddarparu diweddariadau ar waith y CHTh.<br>7. Mae'r CHTh yn parhau i wneud sawl cyfweliad yn y cyfryngau yn gysylltiedig ag ymateb yr heddlu i COVID-19. |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**24/07/20**

| PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD |
|---|
| **Yr argymhellion/penderfyniadau allweddol y mae eu hangen:**<br><br>Ystyried y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd a gwneud y fath adroddiad neu argymhellion ag y gwêl y Panel yn briodol. |
| **Rhesymau:**<br><br>Mae dyletswydd statudol ar y Panel i wneud hyn. |

| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: |
|---|---|---|
| Robert Edgecombe | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 01267 224018<br>Cyfeiriad e-bost:<br>rjedgeco@carmarthenshire.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# DYFED – POWYS POLICE AND CRIME PANEL
# 24/07/20

| DECISIONS TAKEN BY THE COMMISSIONER | |
|---|---|
| **Section 28(6) of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011 requires the Panel to review or scrutinise decisions made and actions taken by the Police and Crime Commissioner in connection with the discharge of his functions and make reports and recommendations to the Commissioner in relation to the discharge of those functions.**<br><br>**Any such reports or recommendations must be published by the Panel.** | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **YES** |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**

**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Host Authority File | PACP-006 | County Hall, Carmarthen |
| | | |
| | | |

**Penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd (gan gynnwys y rhai a wnaed yn y Bwrdd Plismona) 15 Chwefror i 10 Gorffennaf 2020**

| Teitl a Chrynodeb | Dyddiad |
|---|---|
| **Adolygu Llawlyfr y Cynllun Lles Anifeiliaid**<br><br>Cefnogodd y Comisiynydd benderfyniad mewn perthynas ag adolygu Llawlyfr y Cynllun Lles Anifeiliaid. Mae'r newidiadau i'r llawlyfr yn cynnwys ychwanegu gwybodaeth i Adran 6 ynghylch hyfforddiant cynefino a hyfforddiant gloywi. | Chwefror 14 |
| **Adolygu'r Polisi Gwirfoddoli**<br><br>Cefnogodd y Comisiynydd gynnig i adolygu'r Polisi Gwirfoddoli. Mae newidiadau i'r polisi yn cynnwys darparu gwybodaeth ychwanegol ar y Panel Sicrhau Ansawdd, cais am i wirfoddolwyr sy'n dymuno dod â'u hapwyntiad i ben ddatgan hynny'n ysgrifenedig i Weinyddwr y Cynllun a chais am i'r holl dreuliau gael eu cyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu o fewn 6 mis i'r gwariant. | Chwefror 14 |
| **Derbyn dyfynbris ar gyfer argraffu taflen y praesept**<br><br>Cymeradwyodd y Comisiynydd benderfyniad i ddosbarthu taflen Praesept yr Heddlu i bob cartref yn ardal Dyfed Powys gyda Hysbysiadau'r Dreth Gyngor. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am bennu lefel Praesept yr Heddlu. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor 2013 yn dileu'r rhwymedigaeth gyfreithiol i gynnwys copïau papur o lyfryn y Dreth Gyngor a thaflen yr Heddlu o fewn Gofynion blynyddol y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder a chyfathrebu agored â'r cyhoedd, mae'r Comisiynydd wedi penderfynu dosbarthu Taflen Dreth Gyngor Praesept yr Heddlu er mwyn hysbysu'r cyhoedd o'r rheswm y tu ôl i'w benderfyniad i gynyddu'r Praesept.<br><br>Er mwyn sicrhau proses gost effeithiol, gofynnodd y Comisiynydd am ddyfynbrisiau gan dri chwmni gwahanol. Yn seiliedig ar y dyfynbrisiau a dderbyniwyd, dyfarnodd y Comisiynydd y contract i Y Lolfa Cyf. | Chwefror 17 |

| | |
|---|---|
| **Cyd-Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol 2020/21**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, cymeradwyodd y Comisiynydd y diweddariadau a'r diwygiadau a wnaed i Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Roedd y diwygiadau a wnaed yn fân ddiweddariadau er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth. | Mawrth 9 |
| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, cymeradwyodd y Comisiynydd Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd Heddlu Dyfed Powys ar gyfer 2020 – 2024. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Heddlu Dyfed-Powys yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu’r Comisiynydd ar gyfer 2017-2021 yn ogystal â Chenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd Heddlu Dyfed-Powys. | Mawrth 9 |
| **Adroddiad ar Gydweithredu**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, cymeradwyodd y Comisiynydd ddatganiad i'r wasg a ysgrifennwyd ar y cyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu Cymru a'r Grŵp Plismona yng Nghymru mewn perthynas â chanfyddiadau Adroddiad PEEL ar Gydweithredu, "The Hard Yards". Roedd yr Adroddiad yn cynnwys argymhelliad y dylai heddluoedd nad ydynt wedi gweithredu system effeithiol i dracio manteision cydweithredu rhwng heddluoedd ddefnyddio'r system a grëwyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Pennaeth yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref. Cytunodd y Comisiynydd i'r argymhelliad hwn, hefyd. | Mawrth 9 |
| **Contract Prynu Fflyd Cenedlaethol**<br><br>Cytunodd y Comisiynydd, ar ôl ymgynghori â'r Prif Gwnstabl, y dylid arwyddo’r Datganiad o Fwriad ar gyfer y contract prynu fflyd cenedlaethol cyn ystyried y cytundeb cydweithio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.<br><br>Mae’r cytundeb yn cynnig bod Comisiynydd De Swydd Efrog yn gweithredu fel Comisiynydd Arweiniol ac awdurdod contractio mewn perthynas â'r ymarfer caffael ar gyfer prynu fflyd. Mae'r cytundeb yn ceisio ennill ymrwymiad y Comisiynwyr i'r egwyddor o Gytundeb Adran 22 a gaiff ei ddrafftio a'i anfon i'w lofnodi cyn y dyddiad y rhagwelir y bydd y contract yn dechrau ym mis Mehefin 2020. | Mawrth 9 |

| | |
|---|---|
| **Cyfleuster adran gŵn newydd ym Mhen-bre**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, penderfynodd y Comisiynydd dderbyn cais gan gwmni o Cross Hands, Sir Gaerfyrddin o'r enw Sterling, i adeiladu cyfleuster adran gŵn newydd ym Mhen-bre am gost o £359,000.<br><br>Mae'r cytundeb yn cynnig safle newydd i'r adran gŵn, gan gynnwys cyfleusterau ymolchi newydd i staff ac ardal i gŵn yr Uned gael ymarfer corff. | Mawrth 9 |
| **Atal Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn ystod pandemig y Coronafeirws**<br><br>O ganlyniad i ddatblygiadau'n ymwneud â phandemig y Coronafeirws a chyngor gan y Llywodraeth, penderfynodd y Comisiynydd, gyda chytundeb Heddlu Dyfed-Powys, y byddai pob ymweliad nad yw'n hanfodol i safleoedd yr Heddlu yn cael ei ohirio nes rhoddir hysbysiad pellach er mwyn diogelu cydnerthedd plismona yn Nyfed-Powys, ac yn arbennig safleoedd sensitif mewn Gorsafoedd Heddlu.<br><br>O'r herwydd cytunwyd y byddai ymweliadau â'r ddalfa a gynhelir gan Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cael eu hatal nes bod bygythiad y Coronafeirws wedi lleihau. Byddai'r gwaith o graffu ar gofnodion yn y ddalfa yn parhau, ond gan staff yr SCHTh yn hytrach na’r Ymwelwyr Annibynnol. Cytunodd y Comisiynydd i fonitro'r sefyllfa'n ofalus ac ailddechrau’r gweithgarwch cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. | Mawrth 18 |
| **Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020/21**<br><br>Cymeradwyodd y Comisiynydd Strategaeth Rheoli’r Trysorlys 2020/21 sy'n cynnwys dangosyddion darbodus, gofynion ariannu a'r polisi lleiafswm darpariaeth refeniw ar gyfer 2020/21 yn dilyn gwaith craffu ar y ddogfen yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ar 18 Mawrth 2020. | Mawrth 18 |

| | |
|---|---|
| **Ymestyn gweithgarwch grantiau yn ystod pandemig Covid-19**<br><br>Cytunodd y Comisiynydd i adolygu'r amserlenni ar gyfer cyllid grant mewn ymateb i'r cyfyngiadau yn sgil Covid-19. Roedd nifer o brosiectau'r Comisiynydd i fod i gwblhau eu gweithgarwch ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, felly cytunodd y Comisiynydd y gallai prosiectau, lle bo'n bosibl, atal eu gweithgareddau am y tro, gydag arian grantiau yn cael ei gadw gan y derbynnydd.<br><br>Cytunodd y Comisiynydd y dylid ailddechrau gweithgareddau sy'n gysylltiedig â grantiau yn y flwyddyn ariannol newydd pan fo bygythiad Covid-19 wedi lleihau. | Mawrth 20 |
| **Canlyniad y Tendr ar gyfer Gwasanaethau Oedolyn Priodol**<br><br>Oherwydd bod gwerth y ddarpariaeth dros £100,000, mae angen cymeradwyaeth gan y Bwrdd Plismona i fwrw ymlaen â dyfarnu'r contract ar gyfer darpariaeth Gwasanaethau Oedolyn Priodol, a arweiniwyd gan Heddlu Gwent ar ran y tri Heddlu yn y rhanbarth. Diben y ddarpariaeth yw darparu gwasanaeth oedolyn priodol ar gyfer oedolion agored i niwed a gedwir yn Nalfa'r Heddlu neu sy'n cael eu cwestiynu fel rhai a ddrwgdybir mewn ymchwiliad.<br><br>Yn dilyn y broses dendro, argymhellir dyfarnu’r contract ar gyfer Gwasanaethau Oedolyn Priodol i Hafal am gyfnod o 3 blynedd gyda'r opsiwn o'i ymestyn am 12 mis arall.<br><br>Mae Hafal yn sefydliad a reolir gan ac ar gyfer unigolion y mae salwch meddwl difrifol wedi effeithio arnynt. Mae Hafal yn darparu cefnogaeth ar draws saith ardal Bwrdd Iechyd Lleol Cymru ac yn cynorthwyo gydag adferiad ac ymladd gwahaniaethu yn erbyn y rhai sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. | Mawrth 26 |

| | |
|---|---|
| **Caffael Cyfarpar Dioglu Personol**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, cymeradwyodd y Comisiynydd gaffael gwerth £37,000 o Gyfarpar Diogelu Personol er mwyn sicrhau diogelwch swyddogion a staff rheng flaen sy'n ymdrin ag argyfwng Covid-19.<br><br>Cymeradwyodd y Comisiynydd y pryniant mewn ymateb i'r argyfwng cenedlaethol yn sgil Covid-19, gan gydnabod bod yr angen i weithredu'n gyflym i sicrhau cyfarpar o gyflenwadau prin yn golygu bod y broses gaffael yn mynd yn groes i'r trefniadau arferol ar gyfer cymeradwyo fel yr amlinellir yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, a fyddai'n ystyried dyfarniad tendr sengl gan y Bwrdd Plismona. Mae defnyddio gweithdrefnau brys eithafol o dan adran 32 (2) © o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn ategu penderfyniad y Comisiynydd i gymeradwyo'r cynllun gweithredu. | Ebrill 2 |
| **Ymestyn contract New Pathways**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, cymeradwyodd y Comisiynydd estyniad i gontract presennol gyda New Pathways hyd at 31 Mawrth 2022 gyda gwerth o £136,570. Byddai cynnydd o £31,558 y flwyddyn yn cael ei chynnwys ar gyfer cymorth Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) ychwanegol, gan ddod â'r cyfanswm i £168,000 y flwyddyn.<br><br>Mae New Pathways yn elusen sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cwnsela ac eiriolaeth arbenigol i fenywod, dynion, plant a phobl ifanc ac mae'n wasanaeth a gomisiynir i Heddlu Dyfed-Powys i gefnogi dioddefwyr troseddau. | Ebrill 2 |
| **Aelodaeth Dyfed-Powys o BlueLight Commercial**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, cymeradwyodd y Comisiynydd benderfyniad i Heddlu Dyfed-Powys ddod yn aelod o BlueLight Commercial, a sefydlwyd mewn ymateb i adroddiad Gweledigaeth Plismona 2025 Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Bydd y BlueLight Commercial yn galluogi gwell trefniadau cydweithio rhwng awdurdodau lleol, gwasanaethau brys a heddluoedd lleol, gan gynnwys integreiddio swyddogaethau corfforaethol yn ffurfiol. Bydd y BlueLight Commercial yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU am dair blynedd. | Ebrill 2 |

| | |
|---|---|
| **Penodiad Caffael Sancus Solutions Ltd**<br><br>Cymeradwyodd y Comisiynydd y cynnig i ddyfarnu contract a fydd yn cefnogi'r broses o weithredu deddfwriaeth newydd y Swyddfa Gartref mewn perthynas â sut yr ymdrinnir â chwynion yn erbyn yr heddlu. Nod y newidiadau, a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2020, yw sicrhau y gellir ymdrin â chwynion yn gyflym ac yn effeithiol er budd y cyhoedd a’r heddlu.<br><br>Cymeradwyodd y Comisiynydd y cynnig i ddyfarnu'r contract i Sancus Solutions Ltd am gyfnod o 12 mis gydag opsiwn i'w ymestyn am gyfnod pellach o 12 mis. Caiff y telerau y cytunwyd arnynt gyda Sancus Solutions eu hadolygu 18 mis o'r dyddiad gweithredu. | Ebrill 3 |
| **Cyfradd Pensiwn Cyflogwyr ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, cymeradwyodd y Comisiynydd gynnig i awdurdodi taliad tuag at y Gyfradd Pensiwn Cyflogwyr ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cymeradwyodd y Comisiynydd gyfandaliad cyn diwedd Ebrill 2020 yn hytrach na thaliadau misol, a fyddai'n arwain at arbediad o £94,000 i Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r arbedion yn digwydd o ganlyniad i Heddlu Dyfed-Powys yn talu cyfraniad eu cynllun pensiwn llywodraeth leol o tua £ 4.3 miliwn i reolwyr y gronfa bensiwn fel cyfandaliad cychwynnol ym mis Ebrill, yn hytrach nag yn fisol. | Ebrill 23 |
| **Esemptiad rhag prosesau tendro ar gyfer caffael Cyfarpar Diogelu Personol**<br><br>Cymeradwyodd y Comisiynydd benderfyniad i ddiwygio'r polisi caffael dros dro mewn perthynas â phrynu Cyfarpar Diogelu Personol. Mae'r polisi presennol o fewn yr Heddlu’n nodi bod rhaid cael caniatâd y Bwrdd Plismona ar gyfer symiau contract dros £25,000. Gallai'r polisi hwn achosi anhawster pan fydd angen i'r Heddlu symud yn gyflym er mwyn sicrhau Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer swyddogion a staff wrth i stociau leihau ac wrth i gyfyngiadau Covid-19 effeithio ar farchnadoedd tramor.<br><br>Cytunodd y Comisiynydd nad oedd angen i'r Bwrdd gymeradwyo penderfyniadau o'r fath yn ôl yr arfer oherwydd yr amgylchiadau presennol, fodd bynnag gofynnodd am i adroddiadau diweddaru ar bryniannau gael eu darparu i'r Comisiynydd. | Ebrill 23 |

| | |
|---|---|
| **Cais cenedlaethol am Gyfarpar Diogelu Personol heb ei gymeradwyo**<br><br>Mewn ymateb i ohebiaeth genedlaethol gan Brif Gwnstabl Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dave Thompson, yn awgrymu y dylai heddluoedd ledled Cymru a Lloegr wneud ymrwymiad ar y cyd i brynu Cyfarpar Diogelu Personol mewn ymateb i Covid-19, fe wnaeth y Comisiynydd, ar ôl ymgynghori â'r Prif Gwnstabl, gymeradwyo'r argymhelliad i wrthod y cais hwn.<br><br>Mae Heddlu Dyfed-Powys ymhlith yr heddluoedd lleiaf yng Nghymru a Lloegr a chytunodd y Comisiynydd nad oedd gwneud cais cenedlaethol am Gyfarpar Diogelu Personol yn gam angenrheidiol i'r Heddlu ei gymryd. | Ebrill 23 |
| **Cyllid ar gyfer Gwasanaeth a Chanolfan Gyswllt CrimeStoppers**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, ymrwymodd y Comisiynydd i roi cyfraniad ariannol o £14,482 i'r elusen CrimeStoppers sy'n galluogi unigolion i adrodd am droseddau'n ddienw.<br><br>Gwneir y cais am gyllid gan Crimestoppers i bob Comisiynydd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r elusen yn defnyddio'r cyllid i gynnal ei Chanolfan Gyswllt sy'n caniatáu i'r cyhoedd adrodd am droseddau'n ddienw, cyn i'r wybodaeth gael ei throsglwyddo i'r Heddlu heb unrhyw fanylion personol a allai ddatgelu pwy yw'r unigolyn sy'n rhoi'r adroddiad. | Ebrill 23 |
| **Cadarnhaodd y CHTh y bydd yn gwneud cyfraniad i'r Elusen EMBRACE**<br><br>Cymeradwyodd y Comisiynydd benderfyniad i roi £3,500 o'r gyllideb Gwerthiant Eiddo Canfyddedig tuag at gronfa Alfie, sy'n gyfle i swyddogion hyrwyddo atgyfeiriadau i'r elusen Embrace Child Victims of Crime. Mae cronfa Alfie yn codi arian i helpu plant sydd wedi cael eu niweidio gan droseddu ac sydd bellach yn byw mewn cartrefi lle nad oes fawr ddim incwm, os o gwbl, o ganlyniad i fesurau Covid-19.<br><br>Mae Embrace yn gweithio'n rheolaidd gyda Heddlu Dyfed-Powys gan ddarparu cymorth i blant sydd wedi dioddef trosedd. Mae'r Heddlu'n defnyddio'r elusen yn rheolaidd fel sylfaen gyfeirio ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr. | Mai 15 |

| | |
|---|---|
| **Cyfraniad Cydlynydd Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol**<br><br>Cymeradwyodd y Comisiynydd ddyraniad o £20,065 o'r gyllideb Fforffedu tuag at rôl y Cydlynydd Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol. Bydd y rôl yn allweddol wrth ddatblygu dull partneriaeth o ymdrin â thrais difrifol a throseddau cyfundrefnol.<br><br>Mae'r Cydlynydd Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol yn gyfrifol am leihau effaith trais difrifol a throseddau cyfundrefnol ar gymunedau, gan ddargyfeirio'r rhai sy'n fwyaf tebygol o ddod yn droseddwyr difrifol a throseddwyr troseddau cyfundrefnol ac amddiffyn aelodau mwyaf agored i niwed cymdeithas rhag camfanteisio troseddol. | Mai 28 |
| **Rhoi cyfraniad o £3,787 i Brake ar gyfer ei wasanaethau yn 2020/21**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, cymeradwyodd y Comisiynydd gyfraniad o £3,787 i'r elusen Brake ar gyfer ei gwasanaethau yn 2020/21. Amcangyfrifir bod pob galwad i linell gymorth Brake yn yn arbed £3,000 o gostau i'r heddlu, ac mae Brake yn awyddus i gynnwys mwy o'r Gymraeg yn ei gwasanaethau a'u hadnoddau.<br><br>Mae Brake yn elusen diogelwch ar y ffyrdd sy'n gweithio gyda chymunedau a sefydliadau ledled y DU er mwyn atal marwolaethau ac anafiadau ar y ffyrdd a gwneud y ffyrdd a chymunedau'n fwy diogel i bawb gan hefyd gefnogi pobl sydd wedi cael profedigaeth neu sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd. | Mehefin 2 |
| **Cwmni dylunio ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2019/2020 y Comisiynydd**<br><br>Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gynhyrchu Adroddiad Blynyddol o'i weithgareddau yn erbyn ei flaenoriaethau yn ei Gynllun Heddlu a Throseddu a'i waith i gyflawni swyddogaethau statudol. Mae'r adroddiad wedi'i ysgrifennu'n fewnol, a'r llynedd cafodd ei gynllunio gan gwmni allanol er mwyn sicrhau gwasanaeth proffesiynol a phrydlon. Penderfynwyd dilyn y drefn hon eto eleni. Gofynnwyd am ddyfynbrisiau gan nifer o gwmnïau lleol ac fe'u derbyniwyd gan dri ohonynt. Mae'r cwmni a ddewiswyd, Elgan Griffiths, yn dangos ei fod wedi gallu bodloni'r briff mewn ffordd gost effeithiol. | Gorffennaf 3 |

| | |
|---|---|
| **Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd i gael cyswllt dros y ffôn â charcharorion yn ystod y pandemig**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, cymeradwyodd y Comisiynydd argymhelliad i dreialu opsiwn mewn perthynas ag ymgysylltiad Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd â charcharorion, lle byddai Ymwelwyr yn ffonio’r ddalfa i siarad â'r carcharorion sydd ar gael, gan sicrhau iechyd a diogelwch gwirfoddolwyr. Byddai hyn yn galluogi'r cynllun statudol i gyflawni ei swyddogaeth yn ddiogel tra’n cadw at argymhellion y Llywodraeth o ran ymbellhau cymdeithasol.<br><br>Bydd treialu opsiwn 3 yn gyntaf cyn dechrau ymweliadau corfforol â'r ddalfa yn sicrhau bod y cynllun yn ddigon cadarn i fod yn effeithiol pe bai cyfyngiadau’n dychwelyd yn y dyfodol.<br><br>Ynghyd ag opsiwn 3, cytunodd y Comisiynydd y dylid hapsamplu cofnodion y ddalfa bob pythefnos er mwyn cynnal y gwaith o adolygu cofnodion y ddalfa a'i alluogi i oruchwylio meysydd allweddol a allai gael eu heffeithio gan Covid-19 megis darparu oedolion priodol, cyfreithwyr ac ymarferwyr gofal iechyd. | Gorffennaf 2 |
| **Argymhelliad ar gyfer Prosiect Dalfa Llanelli**<br><br>Gyda chytundeb y Prif Gwnstabl, cymeradwyodd y Comisiynydd benderfyniad i fwrw ymlaen ag Opsiwn A1 mewn perthynas â Phrosiect Adeiladu Dalfa Llanelli. Cytunodd y Comisiynydd i barhau â'r cynllun presennol ond gyda dealltwriaeth y ceir cyfanswm diwygiedig fel rhan o'r peirianneg gwerth ac unrhyw arbedion a nodir; bydd hyn yn cael ei gyflawni wrth i'r prosiect fynd drwy gam 3 RIBA.<br><br>Byddai opsiwn A1 yn arwain at ffioedd ychwanegol o £38,406 (Wedi'u dilysu a'u lleihau o £52,000 ers cyflwyniad y Bwrdd Plismona) gan arwain at gyfanswm cost o £16,676,370.34 ar gyfer adeiladu, gyda’r fantais o beidio â chael ffioedd ychwanegol nac oedi pellach i’r rhaglen o gymharu ag opsiwn B ac C. Y dyddiad dechrau ar y safle disgwyliedig ar gyfer yr opsiwn hwn fyddai Mehefin yn lle Mai 2021 (sydd 4 wythnos yn hwy na'r hyn a gyflwynwyd oherwydd i Beirianneg Gwerth fynd rhagddo o dan opsiwn A1.) | Gorffennaf 2 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol